



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Canllaw technegol i weithredu'r Ddeddf
yn ystod yr ail, trydedd a'r bedwaredd
flwyddyn o weithredu.

(2022 i 2023
2023 i 2024
2024 i 2025)

Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), staff addysgu ysgolion ac UCDau, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl y bydd y canllaw hwn hefyd o ddiddordeb i feithrinfeydd annibynnol, ysgolion annibynnol, sefydliadau addysg bellach a swyddogion arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA).

Trosolwg

Mae'r canllaw yn nodi'r trefniadau ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Y Ddeddf ADY). Mae'n nodi'r camau gweithredu y mae rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion eu cymryd wrth symud grwpiau o blant o'r system AAA i'r system ADY.

Camau i'w cymryd

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli UCDau gan y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: GweithreduADY@llyw.cymru

 [@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru

Dogfennau cysylltiedig

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Trosolwg o sut y bydd plant yn symud o'r system AAA i'r system ADY ar ôl 1 Medi 2022	7
3.	Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac sy'n derbyn gofal neu nad ydynt wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad	12
4.	Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad	20
5.	Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy (nad ydynt yn derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac a oedd ag achos datganiad ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022 neu nad oeddent yn dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 neu 6 gan nad oeddent yn mynychu ysgol a gynhelir ar 1 Ionawr 2022	25
6.	Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy (sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac a oedd ag achos datganiad ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022 neu nad oeddent yn dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 neu 6 gan nad oeddent yn mynychu ysgol a gynhelir ar 1 Ionawr 2022	29
7.	Plant sydd â datganiad ar 1 Medi 2022	33
8.	Symud plant o'r system AAA i'r system ADY os ydynt yn ymwneud ag achos datganiad ar y gweill	37
9.	Plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 sydd ag achos ar y gweill cyn datganiad	42
10.	Plant sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad oeddent yn mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022	45
11.	Egluro'r termau	50
12.	Disgrifiad o'r gorchmynion cychwyn	61

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r canllaw hwn ar gyfer awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), staff addysgu ysgolion ac UCDau, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar). Gall y canllaw hwn hefyd fod o ddiddordeb i feithrinfeydd annibynnol, ysgolion annibynnol, sefydliadau addysg bellach (SABau), a swyddogion arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA).
- 1.2. Mae'r canllaw yn nodi'r trefniadau ar gyfer plant sy'n symud o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar ôl 1 Medi 2022.
- 1.3. Mae'n nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau eu cymryd o ran penderfynu a oes gan blant ADY a, lle bo angen, llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol (CDUau).
- 1.4. Mae'r canllaw yn ymdrin â symud plant o'r system AAA i'r system ADY. Mae'n symud i ffwrdd oddi wrth y datganiadau AAA presennol a'r prosesau cysylltiedig a nodir yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 a'r trefniadau a nodir yng '[Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru](#)' mewn perthynas â phlant sy'n derbyn darpariaeth drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy.

Deddfwriaeth berthnasol

- 1.5. Nod [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#) (y Ddeddf ADY) yw creu:
 - fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau gydag ADY ac i gefnogi pobl ifanc ag ADY sydd yn yr ysgol, mewn UCD neu mewn addysg bellach (AB)
 - proses gydweithredol ac integredig o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol
 - system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau
 - dull cynllunio darpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn sicrhau mai barn plant a'u teuluoedd sy'n ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau.

Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a rheoliadau

- 1.6. Mae'r [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru](#) (y Cod ADY) yn gosod gofynion pellach ar ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol ac mae'n cynnwys arweiniad ar eu swyddogaethau o dan y Ddeddf ADY.
- 1.7. Yn ogystal â'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY, mae'r [rheoliadau](#) canlynol yn berthnasol:

- Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014

Gorchymynion cychwyn

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021¹

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2021²

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2021³

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 7) 2021⁴

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022⁵

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022⁶

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 11) 2022⁷

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 12) 2022⁸

¹ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed\) 2021 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6\) 2021.](#)

² [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed\) 2021.](#)

³ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed\) 2021 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6\) 2021.](#)

⁴ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 7\) 2021.](#)

⁵ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed\) 2022.](#)

⁶ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed\) 2022.](#)

⁷ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 11\) 2022.](#)

⁸ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 12\) 2022.](#)

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 13 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022⁹

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022¹⁰

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 15) 2022¹¹

Dull gweithredu

- 1.8. Bydd y system ADY a nodir yn y Ddeddf ADY yn cael ei gweithredu dros flynyddoedd ysgol 2021 i 2022, 2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025. Mae'r dull gweithredu a nodir yn y canllaw hwn wedi'i lywio gan farn rhanddeiliaid a ymatebodd i'r [ymgyngoriad cyhoeddus ar sut y dylid gweithredu'r Ddeddf ADY](#). Canfu'r ymgynghoriad fod yna gefnogaeth gref i orfodi dull graddol o weithredu'r system ADY. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno mai amserlenni cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo grwpiau penodol o blant i'r system ADY fyddai'r dull mwyaf hylaw a chyson.
- 1.9. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, daeth y Ddeddf ADY i rym ar gyfer pob plentyn ym Mlwyddyn 10 ac iau nad oedd AAA wedi'u nodi ar ei gyfer (Gorchymynion Cychwyn 2 a 7).
- 1.10. Roedd Gorchymynion Cychwyn 5 a 6 yn ymdrin â phlant a oedd ym Mlwyddyn 10 ac iau, mewn ysgol a gynhelir neu UCD, oedd ag AAA wedi'u nodi gyda darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy (Gorchymynion Cychwyn 5 a 6).
- 1.11. Cyhoeddwyd canllawiau a oedd yn cwmpasu'r flwyddyn gyntaf o weithredu ar gyfer plant sy'n dod o dan Orchymynion Cychwyn 2, 5, 6 a 7.
- 1.12. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu yn unol â'r [datganiad](#) ym mis Mawrth 2022. Mae hyn yn cynnwys y grwpiau o blant y gellid bod wedi'u symud yn y flwyddyn gyntaf o weithredu yn ogystal â'r rhai nad oeddent yn dod o dan y trefniadau yn y flwyddyn gyntaf o weithredu.
- 1.13. Mae trefniadau ar gyfer symud yn y flwyddyn flaenorol o weithredu wedi'u nodi yn y dogfennau canlynol:
 - ['Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018: Canllaw technegol i weithredu'r Ddeddf yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu \(2021 i 2022\), fel y'i diwygiwyd'](#)

⁹ Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 13 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022.

¹⁰ Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022.

¹¹ Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 15) 2022.

- [‘Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018: canllaw i ymarferwyr’](#)
- [‘System anghenion dysgu ychwanegol \(ADY\): canllaw i rieni’](#).

I'w weithredu o 1 Medi 2022

- 1.14. Bydd y Ddeddf ADY yn dod i rym ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 ym mlwyddyn ysgol 2022 i 2023. Bydd y plant hyn yn symud o'r system AAA i'r system ADY rhwng 1 Medi 2022 a 31 Awst 2025.
- 1.15. Bydd plant sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 a 6 yn parhau i gael eu symud o'r system AAA i'r system ADY rhwng 1 Medi 2022 a 31 Awst 2025.

Gweithredu'r system AAA wrth weithredu'r system newydd

- 1.16. Yn ystod y broses weithredu, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA. Bydd y system honno'n dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu. Hyd nes y bydd plentyn yn symud i'r system ADY, mae'r ddeddfwriaeth AAA¹² yn parhau mewn grym, sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol barhau i ddarparu'r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir mewn cynlluniau neu ddatganiadau gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy.
- 1.17. Er bod y ddeddfwriaeth AAA yn parhau mewn grym, a bod rhaid parhau i ddarparu darpariaeth addysgol arbennig hyd nes y bydd plentyn yn symud i'r system ADY, mae darpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n parhau mewn grym yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu na fydd yn bosibl gwneud cais am asesiad AAA ar gyfer plant ar ôl 1 Medi 2022. Fodd bynnag, gall plant neu eu rhieni ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir iddynt symud i'r system ADY (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am wybodaeth am ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 11.59 i 11.61 am yr hawl i ofyn am hysbysiad ADY).
- 1.18. Bydd asesiadau AAA yn parhau ar gyfer pobl ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD.
- 1.19. Rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion ac UC Dau barhau i gydymffurfio â Deddf Addysg 1996 a rheoliadau a wnaed oddi tani tra bydd y Ddeddf a'r rheoliadau yn dal i fod yn berthnasol i'r plentyn, a chyda'r trefniadau a nodir yng [‘Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru’](#).
- 1.20. Ar ôl 1 Medi 2022, ni fydd plant ym Mlwyddyn 11 yn gallu cael asesiad adran 140. Fodd bynnag, gall plant neu eu rhieni ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir iddynt symud i'r system ADY (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 ar gyfer gwybodaeth am ofyn am hysbysiad CDU).

¹² Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996.

Trefniadau pontio a'r Cod ADY

- 1.21. Nid yw'r trefniadau pontio sydd wedi'u rhoi ar waith i weithredu'r system ADY yn union yr un fath â'r trefniadau a nodir yn y Ddeddf ADY a'r Cod ADY. Mae'r gwahaniaethau'n cynnwys, er enghraifft, yr amserlenni ar gyfer penderfynu bod gan blentyn ADY a'r amserlenni ar gyfer paratoi CDU.

2. Trosolwg o sut y bydd plant yn symud o'r system AAA i'r system ADY ar ôl 1 Medi 2022

- 2.1 Mae'r bennod hon yn darparu trosolwg o sut y bydd plant yn symud o'r system AAA i'r system ADY yn ystod yr ail, trydedd a'r bedwaredd flwyddyn o weithredu (2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025).

Plant sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY

- 2.2 Mae'r system ADY yn berthnasol i bob plentyn sydd newydd ei ddynodi fel plentyn ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddo ADY, waeth sut y caiff ei addysgu ei darparu¹³.

- 2.3 Mae hyn yn golygu bod y cyfrifoldebau yn y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Ddeddf ADY, a'r Cod ADY, yn berthnasol. Pan gaiff ei ddwyn i sylw ysgol, UCD neu awdurdod lleol, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall, bod gan blentyn ADY, rhaid i'r ysgol, UCD neu awdurdod lleol wneud penderfyniad a llunio CDU os oes angen.

Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

- 2.4 Bydd ysgolion ac UCDAu yn symud plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad ydynt wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad, i'r system ADY pan fyddant yn dod o fewn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol:

- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
- blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6a Blwyddyn 10¹⁴
- blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Mlwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023-24.

- 2.5 Gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn i'r ysgol neu'r UCD gyhoeddi hysbysiad CDU (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am wybodaeth am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 11.59 i 11.61 am yr hawl i ofyn am hysbysiad ADY). Gall ysgolion ac UCDAu gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43).

¹³ Gorchymnion Cychwyn 2, 7 a 12.

¹⁴ Gorchymnion Cychwyn 5.

Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

- 2.6 Bydd awdurdodau lleol yn symud plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad, i'r system ADY yn y blynyddoedd gorfodol canlynol:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6a Blwyddyn 10¹⁵.
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Mlwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023-24
- 2.7 Gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad CDU (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am wybodaeth am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU). Gall awdurdodau lleol gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43).

Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy (nad ydynt yn derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac a oedd â datganiad ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022

- 2.8 Bydd ysgolion ac UCDAu yn symud plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Medi 2022 (nad ydynt yn derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac a oedd â datganiad ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022, i'r system ADY pan fyddant yn dod o fewn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6 a Blwyddyn 10¹⁶
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Mlwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023-24
- 2.9 Gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn i'r ysgol neu'r UCD gyhoeddi hysbysiad

¹⁵ Gorchymyn Cychwyn 6.

¹⁶ Gorchymyn Cychwyn 13.

CDU (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 ar gyfer gwybodaeth am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 11.59 i 11.61 am yr hawl i ofyn am hysbysiad ADY). Gall yr ysgol neu'r UCD gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43).

Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy (sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac a oedd â datganiad ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022

2.10 Bydd awdurdodau lleol yn symud plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Medi 2022 (sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac a oedd â datganiad ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022, i'r system ADY pan fyddant yn dod o fewn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol:

- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
- blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6 a Blwyddyn 10¹⁷
- blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Blwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023-24

2.11 Gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad CDU (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am wybodaeth am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU). Gall yr awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43).

Plant â datganiad ar 1 Medi 2022

2.12 Bydd awdurdodau lleol yn symud plant sydd â datganiad i'r system ADY os ydynt yn dod o fewn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol:

- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 6, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
- blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6 a Blwyddyn 10¹⁸
- blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9 ym mlwyddyn ysgol 2023-24

2.13 Gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad CDU (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 ar gyfer gwybodaeth am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU). Gall awdurdodau lleol gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43).

¹⁷ Gorchymyn Cychwyn 14.

¹⁸ Gorchymyn Cychwyn 8.

Plant sydd ag achos datganiad ar y gweill ar 1 Medi 2022

- 2.14 Bydd awdurdodau lleol yn symud plant sydd ag achos datganiad ar y gweill (gweler paragraffau 11.46 i 11.47 ar gyfer diffiniad o achosion datganiad ar y gweill) ar 1 Medi 2022 trwy gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU pan fydd yr achos yn cael ei benderfynu¹⁹ neu pan fydd yr amser ar gyfer cyflwyno apêl wedi dod i ben heb gyflwyno apêl.

Plant sydd ag achos ar y gweill cyn datganiad ar 1 Medi 2022

- 2.15 Bydd awdurdodau lleol yn symud plant sydd ag achos ar y gweill cyn datganiad (gweler paragraffau 11.46 i 11.47 ar gyfer diffiniad o achosion ar y gweill) ar 1 Medi 2022 trwy gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43) pan fydd yr achos yn cael ei benderfynu os oes apêl ar waith ar 1 Medi 2022, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 1 Medi 2022²⁰.

Plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad ydynt yn derbyn gofal neu nad ydynt yn cael addysg heblaw yn yr ysgol

- 2.16 Bydd plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022 sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad ydynt yn derbyn gofal nac yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY ar 1 Medi 2022²¹.
- 2.17 Mae plant yn y grŵp hwn yn cynnwys plant sy'n mynychu meithrinfa neu ysgol annibynnol a phlant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn lleoliad addysg, fel plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

Plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sy'n derbyn gofal neu sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

- 2.18 Bydd awdurdodau lleol yn symud plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sy'n derbyn gofal neu'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, i'r system ADY pan fyddant yn dod o fewn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol:

¹⁹ Gorchymyn Cychwyn 8.

²⁰ Gorchymyn Cychwyn 9.

²¹ Gorchymyn Cychwyn 11.

- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynnyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
- blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Meithrin Blynnyddoedd 1 a 2, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10²².

2.19 Gall plant, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad CDU (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am wybodaeth am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU). Gall awdurdodau lleol gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43).

Plant sydd â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar 1 Medi 2022

2.20 Bydd plant sydd â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal neu sy'n ymwneud â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar y gweill o dan [Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014](#) yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 1 Medi 2022²³.

²² Gorchymyn Cychwyn 14.

²³ Gorchymyn Cychwyn 15.

3. Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac sy'n derbyn gofal neu nad ydynt wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

Cyflwyniad

- 3.1 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022, sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ac sy'n dod o fewn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blwyddyn 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6a Blwyddyn 10²⁴
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Blwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym blwyddyn ysgol 2023-24
- 3.2 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 5 yn cynnwys plant sydd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 (gweler adrannau 5 a 6 ar gyfer plant a oedd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 ac y daeth yr achos i ben cyn mis Medi 2022 a gweler adrannau 7 ac 8 ar gyfer plant sydd ag achos ar y gweill ar 1 Medi 2022). Bydd paragraffau 11.46 i 11.47 yn darparu diffiniad o achosion sydd ar y gweill.
- 3.3 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 hefyd yn eithrio plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

Y broses ar gyfer symud plant o'r system AAA i'r system ADY

Penderfynu os oes gan blentyn ADY a rhoi hysbysiad

- 3.4 Cyn rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43), rhaid i ysgolion ac UC Dau benderfynu a oes gan blant sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ADY (gweler pennod 20 o'r Cod ADY – 'Adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol').
- 3.5 Mae'n debygol y bydd gan blant sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 ADY. Weithiau, ni fydd gan blentyn a oedd yn cael darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ADY gan fod ei anghenion wedi newid, ac nad oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arno i'w helpu i ddysgu.

²⁴ Gorchymyn Cychwyn 5, erthyglau 10 ac 11.

- 3.6 Os yw plentyn a oedd yn cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 yn peidio â chael darpariaeth addysgol arbennig wedyn, mae'r plentyn hwnnw'n dal i gael ei gynnwys yng Ngorchymyn Cychwyn 5 (oherwydd bod gan y plentyn AAA ar 1 Ionawr 2022). O ganlyniad, rhaid i'r ysgol neu'r UCD benderfynu a oes gan y plentyn ADY.
- 3.7 Ar ôl penderfynu a oes gan blentyn AAA ai peidio, rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i rieni.
- 3.8 Os yw'r ysgol neu'r UCD wedi penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid i'r ysgol neu'r UCD gyflwyno CDU o fewn 35 diwrnod ysgol i ddyddiad yr hysbysiad²⁵, ac eithrio os yw'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:
- mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol
 - mae unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 12(2) o'r Ddeddf ADY yn berthnasol.
- 3.9 Mae'r hysbysiad yn golygu bod y penderfyniad bod gan blentyn ADY yn cael ei drin fel pe bai wedi'i wneud ar ddyddiad yr hysbysiad. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad pan fydd y gyfraith newydd yn berthnasol, a'r hen gyfraith yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn.
- 3.10 Unwaith y bydd y system ADY yn berthnasol i blentyn, a bod y plentyn hwnnw wedyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu'n cael ei gofrestru neu ei ymrestru mewn lleoliad arall, rhaid i'r ysgol neu'r UCD atgyfeirio achos y plentyn i'r awdurdod lleol²⁶.
- 3.11 Gall ysgol neu UCD atgyfeirio achos plentyn i'r awdurdod lleol pan fo hysbysiad CDU wedi'i roi a bod anghenion y plentyn yn golygu bod yr ysgol o'r farn bod gan y plentyn ADY:
- a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau
 - na all bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol, neu
 - na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar eu cyfer²⁷.
- 3.12 Pan fo ysgol yn penderfynu nad oes gan blentyn ADY, rhaid i'r ysgol roi hysbysiad dim CDU i'r plentyn a riant y plentyn. Mae'r hysbysiad yn cadarnhau bod yr ysgol neu'r UCD wedi penderfynu nad oes gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY. Mae'r system ADY yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn berthnasol.
- 3.13 Pan fo plentyn, neu ei riant, yn anfodlon â'r penderfyniad a wnaed gan yr ysgol neu'r UCD ynghylch a oes gan y plentyn ADY, disgwylir y byddai'r anfodlonrwydd hwn fel arfer yn cael ei ddatrys yn uniongyrchol gyda'r ysgol

²⁵ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 13.

²⁶ Mae rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau gan ysgol a gynhelir i awdurdod lleol, lle mae'r plentyn wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, ar gael yn y Cod ADY pennod 12, tudalen 103; ac ym mhennod 14, tudalennau 124 i 125, lle bo plentyn yn derbyn gofal.

²⁷ Deddf ADY, adran 12(2)(a).

neu'r UCD neu drwy droi at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundeb. Fel arall, neu yn ogystal, os na chaiff yr anghytundeb ei ddatrys, gall plant a'u rhieni ofyn i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y penderfyniad a wnaed gan yr ysgol neu'r UCD (ceir rhagor o wybodaeth am ailystyriaethau awdurdodau lleol yn y Cod ADY, pennod 26, tudalen 297).

Hysbysiadau ADY

- 3.14 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn gwneud darpariaeth er mwyn i'r awdurdod lleol priodol (gweler paragraffau 11.9 i 11.12 ar gyfer esboniad o awdurdod lleol priodol) roi hysbysiad ADY. Yn wahanol i hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, nid yw'r hysbysiad ADY yn cynnwys yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY.
- 3.15 Effaith yr hysbysiad ADY yw bod y system ADY yn berthnasol ar ddyddiad yr hysbysiad a bod y system AAA yn peidio â bod yn berthnasol ar y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, mae'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwn ymlaen.
- 3.16 Mae gan yr hysbysiad ADY 2 swyddogaeth:
- (1) Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud plant o'r system AAA i'r system ADY ar unrhyw adeg. Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol symud unrhyw blentyn sy'n dod o dan y gorchymyn²⁸ (p'un a yw'n parhau i gael ei gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ai peidio) i'r system ADY ar unrhyw adeg. Ni ddisgwylir y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r pŵer hwn yn aml. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir ei arfer (oni bai bod y rhiant yn gofyn am roi'r hysbysiad ADY).
 - (2) Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi plentyn a oedd ag AAA ar 1 Ionawr 2022 ac nad yw bellach yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu UCD ac nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY, neu riant y plentyn hwnnw, i ofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY. Pan fo plentyn neu ei riant yn gofyn i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ADY, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY o fewn 10 diwrnod gwaith i'r cais.

Gellid defnyddio'r ddarpariaeth hon pan fo plentyn, er enghraifft, yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir ar ddiwedd Blwyddyn 6 ac nad yw'n ymuno ag ysgol arall a gynhelir ar ddechrau Blwyddyn 7 oherwydd, er enghraifft, ei fod yn dod yn ddisgybl a addysgir yn y cartref yn ddewisol neu'n mynychu ysgol annibynnol.

²⁸Hynny yw, plant sydd ag AAA ar 1 Ionawr 2022 trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yn yr ysgol a mwy (nid oes ganddynt ddatganiad ac nid ydynt yn rhan o'r broses datganiad AAA (achos ar y gweill)) sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD.

Pan fo'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir ar ddiwedd Blwyddyn 6 ac yn ymuno ag ysgol a gynhelir neu UCD ar ddechrau Blwyddyn 7, gall y plentyn neu ei riant ofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU.

Llunio CDU

- 3.17 Fel y nodwyd uchod, dyddiad yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU, yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn berthnasol ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn. Gan fod gan yr ysgol neu'r UCD hyd at 35 diwrnod ysgol i roi'r CDU o ddyddiad yr hysbysiad CDU, bydd cyfnod o amser pan na fydd darpariaeth a wneir drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy yn berthnasol ac nad yw'r ddarpariaeth o dan y system ADY wedi'i chytuno eto drwy CDU. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i ysgolion ac UCDAu gymryd camau rhesymol i gyflwyno darpariaeth i gefnogi'r plentyn²⁹ (am ganllawiau ar y ddyletswydd hon, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 100 i 102).
- 3.18 Wrth lunio'r CDU, rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 99 i 100).

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

- 3.19 Pan na fydd ysgol neu UCD wedi darparu hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i blentyn (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant erbyn 30 Awst 2023, os oedd disgwyl iddo gael hysbysiad erbyn y dyddiad hwnnw, mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl yn symud i'r system ADY o fewn y flwyddyn ysgol (cyfeirir at hyn fel 'darpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn' yn y canllaw hwn)³⁰.
- 3.20 Os nad yw plentyn a ddisgrifir ym mharagraff 3.1 wedi symud i'r system ADY erbyn 30 Awst 2025, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2025. Mae hyn yn golygu na fydd yr hen gyfraith yn berthnasol ar 31 Awst 2025 a bydd y gyfraith newydd yn berthnasol ar y dyddiad hwn. Mae'r dyletswyddau y ddarperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o 31 Awst 2025.
- 3.21 Mae hyn yn golygu, o'r dyddiad y caiff y ffaith y gallai fod gan blentyn ADY ei ddwyn i sylw'r ysgol neu'r UCD, neu fod hynny'n ymddangos i'r ysgol neu'r UCD mewn ffordd arall, bydd gan yr ysgol neu'r UCD 35 diwrnod ysgol i wneud penderfyniad, ac os penderfynir bod gan y plentyn ADY, llunio a rhoi CDU. (Gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 96 i 98 am ganllawiau ynghylch dyletswydd ysgol i benderfynu a oes gan blentyn ADY).

²⁹ Mae adran 47 o'r Ddeddf ADY yn gosod dyletswydd ar ysgolion i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY os oes gan blentyn ADY ond nad yw CDU yn cael ei gynnal.

³⁰ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 15.

- 3.22 Os oedd y plentyn yn derbyn darpariaeth gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy cyn symud yn awtomatig i'r system ADY, yna byddai'n ymddangos i'r ysgol neu'r UCD bod gan y plentyn ADY a rhaid i'r ysgol neu'r UCD wneud penderfyniad o dan adran 11 o'r Ddeddf ADY.
- 3.23 Os nad yw'r plentyn yn derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy mwyach cyn symud yn awtomatig i'r system ADY, mae'r ddyletswydd i benderfynu o dan adran 11 yn berthnasol unwaith y caiff hyn ei ddwyn i sylw'r ysgol neu'r UCD, neu os yw'n ymddangos iddo fel arall, y gallai fod gan y plentyn ADY.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU (neu hysbysiad dim CDU)

- 3.24 Mae gan blant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5, neu eu rhieni, yr hawl i wneud cais, ar unrhyw adeg, i'w hysgol neu eu UCD roi hysbysiad CDU³¹ (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU).
- 3.25 Gellir gwneud y cais naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- 3.26 Rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod i dderbyn y cais. Fel yr uchod, os yw'r ysgol neu'r UCD o'r farn bod gan y plentyn ADY ac yn rhoi hysbysiad CDU, rhaid i'r ysgol neu'r UCD lunio CDU o fewn 35 diwrnod ysgol i ddyddiad yr hysbysiad³², oni bai bod yna eithriadau neu amgylchiadau eithriadol.
- 3.27 Mae'r hawl i ofyn am hysbysiad CDU yn galluogi'r plant hynny sy'n anfodlon â'r ddarpariaeth addysgol arbennig a gyflwynir drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy i symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad ac elwa o'r hawliau a ddarperir gan y Ddeddf ADY.

Newid mewn amgylchiadau

- 3.28 Bydd plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5 nad ydyw eisoes wedi'i symud i'r system ADY yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY pan fo'i amgylchiadau wedi newid yn un o'r ffyrdd canlynol:
- wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl 1 Ionawr 2022, daeth yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr ymrestredig mewn sefydliad arall hefyd (hynny yw, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano;
 - wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Ionawr 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl 1 Ionawr 2022, daeth yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru; neu
 - wedi peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022, ac eithrio pan fo'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig

³¹ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 12.

³² Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 12.

oherwydd ei fod yn rhan o broses bontio arferol neu oherwydd cau ysgol/UCD.

- 3.29 Pan fo plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022, at ddibenion pontio arferol o un ysgol neu UCD i'r llall – hynny yw, o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 neu o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 – mae'n cael ei eithrio rhag symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.
- 3.30 Yn ogystal, pan fo plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Ionawr 2022 oherwydd bod ei ysgol neu ei UCD yn cau, ni fydd y plentyn yn cael ei symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY.
- 3.31 Mae hyn yn golygu y bydd plant sy'n cael eu tynnu o gofrestr eu hysgol neu eu UCD oherwydd cyfnod pontio arferol neu gau ysgol/UCD, ac yn symud i ysgol a gynhelir neu UCD arall, yn symud i'r system ADY yn ystod eu blwyddyn orfodol.
- 3.32 Fodd bynnag, gall plentyn a ddisgrifir ym mharagraff 3.1 ofyn am symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad (gweler paragraffau 11.59 i 11.61 ar gyfer gwybodaeth am ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 11.38 i 11.43 ar gyfer gwybodaeth am ofyn am hysbysiad ADY).
- 3.33 Dylai ysgolion ac UCDAu fod yn ymwybodol bod y ddarpariaeth newid mewn amgylchiadau yng Ngorchymyn Cychwyn 6 (gweler adran 4) yn wahanol i Orchymyn Cychwyn 5. Nid yw'r ddarpariaeth newid mewn amgylchiadau yng Ngorchymyn Cychwyn 6 yn cael ei effeithio gan bontio arferol na chau ysgolion/UCDAu. Mae hyn yn golygu, os yw plentyn, er enghraifft, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, ar ddiwedd Blwyddyn 6, ei fod yn cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig, y bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY. Pan fydd hyn yn codi, dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r ysgol neu'r UCD bod y plentyn wedi peidio â bod yn gofrestredig mewn mwy nag un lleoliad ac, felly, bod y plentyn wedi symud yn awtomatig i'r gyfraith newydd a bod y dyletswyddau a osodir ar yr ysgol neu'r UCD yn berthnasol.
- 3.34 Mae'r gwahanol ddulliau o ymdrin â newid mewn amgylchiadau yn golygu, os bu newid ysgol neu UCD o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 neu o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, bydd angen i ysgolion nodi a oedd eu disgyblion sydd ym Flwyddyn 3 a Blwyddyn 7 yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023, ar 1 Ionawr 2022:
- a. yn derbyn darpariaeth gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad neu'n derbyn gofal; neu
 - b. yn derbyn darpariaeth gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac wedi'u cofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig.

- 3.35 Bydd angen i ysgolion ac UCDAu nodi a yw plant yn perthyn i grŵp (a) neu (b) fel eu bod yn gwybod a yw plant wedi symud yn awtomatig i'r system ADY. Bydd plant sy'n perthyn i (a) yn symud yn awtomatig i'r system ADY pan fyddant yn pontio o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 ac o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Felly, nid oes angen i'r ysgol neu'r UCD sy'n derbyn roi hysbysiad i symud y plentyn i'r system ADY.
- 3.36 Ni fydd plant sy'n perthyn i (b) yn symud yn awtomatig i'r system pan fyddant yn pontio o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 ac o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Felly, bydd angen i'r ysgol neu'r UCD sy'n derbyn roi hysbysiad yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu i symud y plant hyn o'r system AAA i'r system ADY.

Plant sy'n symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

- 3.37 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant a ddisgrifir ym mharagraff 3.1. Hynny yw, yn yr ail flwyddyn o weithredu, mae'r plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, ac mae yn un o'r blynyddoedd gorfodol ar 1 Medi 2022 ac, yn y drydedd flwyddyn o weithredu, mae yn un o'r blynyddoedd gorfodol ar 1 Medi 2023.
- 3.38 Yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu, pan fo plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5 yn symud i flwyddyn orfodol 2022 i 2023 ar ôl 1 Medi 2022 (gweler yr enghraifft ym mharagraff 3.39), rhaid i'r ysgol neu'r UCD naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a riant y plentyn, yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024³³. Mae'r system ADY yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r system AAA yn peidio â bod yn berthnasol. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn, neu ei riant, yn gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY (gweler paragraffau 11.9 i 11.12 am esboniad o awdurdod lleol priodol).
- 3.39 Enghraifft o blentyn yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol fyddai pe bai plentyn yn symud ymlaen blwyddyn o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10 yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu.

Galluedd

- 3.40 Nid oes rhaid i ysgolion, UCDAu neu awdurdodau lleol roi hysbysiad na chopi o CDU i blentyn lle nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall yr wybodaeth yn yr hysbysiad o CDU³⁴.

Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc

- 3.41 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i ysgol, UCD neu awdurdod lleol roi hysbysiad, dim ond i'r person ifanc y mae'n rhaid i'r ysgol neu'r UCD

³³ Yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu, rhaid cymryd y camau hyn pan fydd plentyn yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl 1 Medi.

³⁴ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed\) 2021](#) fel y'i diwygiwyd gan [Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6\) 2021](#).

neu'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad neu'r CDU. Nid yw'r ddyletswydd i roi'r hysbysiad i riant neu i ymateb i gais yn berthnasol.

Cydsyniad

- 3.42 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i ysgol, UCD neu awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, bydd angen i'r ysgol neu'r UCD neu'r awdurdod lleol gael cydsyniad y person ifanc er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY. Y rheswm am hyn yw bod gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gydsynio bod CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ei gadw.
- 3.43 Os nad yw person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY, ni fydd yr ysgol neu'r UCD neu'r awdurdod lleol yn gallu cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gan fod angen gwneud penderfyniad i wneud hyn. Pan fo person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ond nid yn cydsynio bod CDU yn cael ei baratoi, ei gynnal neu (yn achos person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r ddyletswydd i lunio CDU yn berthnasol.

4. Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

Cyflwyniad

- 4.1 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 11 sydd, ar 1 Ionawr 2022, wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, yn derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac yn dod o fewn y blynyddoedd gorfodol canlynol:
- ym mlwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blwyddyn 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
 - ym mlwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6, a Blwyddyn 10.
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn Blwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023-24
- 4.2 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 6 yn cynnwys plant sydd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 (gweler adrannau 5 a 6 ar gyfer plant a oedd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 ac y daeth yr achos i ben cyn mis Medi 2022 a gweler adrannau 7 ac 8 ar gyfer plant sydd ag achos ar y gweill ar 1 Medi 2022). Bydd paragraffau 11.46 i 11.47 yn darparu diffiniad o achosion sydd ar y gweill.
- 4.3 Er mwyn galluogi plant a ddisgrifir ym mharagraff 4.1 i symud o'r system AAA i'r system ADY, rhaid i awdurdodau lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plant hyn a'u rhieni, ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn ysgol y maent i fod i gael eu symud³⁵.

Y broses ar gyfer symud plant o'r system AAA i'r system ADY

Penderfynu os oes gan blentyn ADY a rhoi hysbysiad

- 4.4 Cyn cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43), rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a oes gan blant sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, ADY (gweler pennod 20 o'r Cod ADY – 'Adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol').
- 4.5 Mae'n debygol y bydd gan blant sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 ADY. O bryd i'w gilydd, ni fydd gan blentyn a oedd yn cael darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a

³⁵ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 9. Nid yw'r sefyllfa o ran rhoi hysbysiadau i blant a/neu rieni sydd heb alluedd yn y Cod ADY yn berthnasol i'r hysbysiadau a roddir o dan Orchymyn Cychwyn 6.

mwy ADY gan fod ei anghenion wedi newid, ac nad oes angen DDdY arno i'w helpu i ddysgu.

- 4.6 Os yw plentyn a oedd yn cael darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Ionawr 2022 yn peidio â chael darpariaeth addysgol arbennig wedyn, mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn berthnasol i'r plentyn o hyd (oherwydd bod gan y plentyn AAA ar 1 Ionawr 2022). O ganlyniad, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu os oes gan y plentyn ADY.
- 4.7 Ar ôl penderfynu a oes gan blentyn ADY ai peidio, rhaid i'r awdurdod lleol priodol (gweler paragraffau 11.9 i 11.12 ar gyfer esboniad o awdurdod lleol priodol) roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i rieni.
- 4.8 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod gan blentyn ADY, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad CDU i'r plentyn, a riant y plentyn, a llunio CDU o fewn 12 wythnos i gyhoeddi'r hysbysiad CDU. Mae'r hysbysiad yn golygu bod y penderfyniad bod gan y plentyn ADY yn cael ei drin fel pe bai wedi'i wneud ar ddyddiad yr hysbysiad. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad pan fydd y gyfraith newydd yn berthnasol, a bod yr hen gyfraith yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn.
- 4.9 Os yw awdurdod lleol wedi penderfynu nad oes gan blentyn ADY, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a riant y plentyn, yn cadarnhau bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu nad oes gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY. Mae'r system ADY yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn berthnasol.
- 4.10 Os yw plentyn neu riant yn anghytuno â'r penderfyniad a wnaed gan awdurdod lleol, gall apelio yn erbyn y penderfyniad i Dribiwnlys Addysg Cymru.
- 4.11 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn darparu i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff yr awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY (gweler paragraffau 11.9 i 11.12 am esboniad o awdurdod lleol priodol).
- 4.12 Caiff yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun ac ar unrhyw adeg, roi hysbysiad ADY i blentyn a rheni'r plentyn.
- 4.13 Effaith yr hysbysiad ADY yw bod y system ADY yn berthnasol ar ddyddiad yr hysbysiad a bod y system AAA yn peidio â bod yn berthnasol ar y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, mae'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwn ymlaen.

Llunio CDU

- 4.14 Fel y nodwyd uchod, dyddiad yr hysbysiad CDU neu'r hysbysiad dim CDU yw'r dyddiad y mae'r gyfraith newydd yn berthnasol ac mae'r hen gyfraith yn

peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn. Gan fod gan yr awdurdod lleol hyd at 12 wythnos i roi'r CDU o ddyddiad yr hysbysiad, bydd cyfnod o amser pan na fydd darpariaeth a wneir drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy yn berthnasol ac nad yw'r ddarpariaeth o dan y system ADY wedi'i chytuno eto drwy CDU. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i ysgolion ac UC Dau gymryd camau rhesymol i gyflwyno darpariaeth i gefnogi'r plentyn (am ganllawiau ar y ddyletsywydd hon, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 100 i 102).

- 4.15 Wrth baratoi'r CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am baratoi CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 109 i 111).

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd blwyddyn orfodol

- 4.16 Os nad yw awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn a'i riant mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY), mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn.
- 4.17 Mae'r ddarpariaeth yn golygu, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, y bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn a bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.
- 4.18 Os oedd y plentyn yn derbyn darpariaeth gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy cyn symud yn awtomatig i'r system ADY, rhoddir hysbysiad CDU³⁶.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU (neu hysbysiad dim CDU)

- 4.19 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn rhoi hawl i blant sy'n dod o dan y gorchymynion cychwyn, neu eu rhieni, ofyn am i hysbysiad CDU (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU) gael ei roi ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu³⁷.
- 4.20 Gellir gwneud y cais naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- 4.21 Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cais. Fel uchod, os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod gan y plentyn ADY ac yn rhoi hysbysiad CDU, rhaid i'r awdurdod lleol lunio CDU

³⁶ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 12.

³⁷ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 12; a Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 12.

o fewn 12 wythnos i ddyddiad yr hysbysiad³⁸, ac eithrio pan fydd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

- 4.22 Mae'r hawl i ofyn am hysbysiad CDU yn galluogi'r plant hynny sy'n anafdlon â'r ddarpariaeth addysgol arbennig a gyflwynir drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy i symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad ac i elwa ar yr hawliau a ddarperir gan y Ddeddf ADY.

Newid mewn amgylchiadau

- 4.23 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 6, nad ydynt eisoes wedi'u symud i'r system ADY, yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY pan fyddant yn peidio â:
- derbyn gofal
 - bod wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.
- 4.24 Nid yw'r ddarpariaeth newid mewn amgylchiadau yng Ngorchymyn Cychwyn 6 yn cael ei heffeithio gan bontio arferol na chau ysgolion. Hynny yw, lle'r oedd plentyn, er enghraifft, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, ar ddiwedd Blwyddyn 6, yn cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir yn unig, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY.
- 4.25 Pan fo plentyn a gofrestrwyd mewn mwy nag un lleoliad yn cael ei gofrestru mewn un ysgol a gynhelir neu UCD yn unig, dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r ysgol neu'r UCD bod y plentyn wedi peidio â chael ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac, felly, ei fod wedi symud yn awtomatig i'r gyfraith newydd a bod y dyletswyddau a osodir ar yr ysgol neu'r UCD yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol.

Plant sy'n symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

- 4.26 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant a ddisgrifir ym mharagraff 4.1. Hynny yw, yn yr ail flwyddyn o weithredu, mae'r plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, ac mae yn un o'r blynyddoedd gorfodol ar 1 Medi 2022 ac yn y drydedd flwyddyn, mae yn un o'r blynyddoedd gorfodol ar 1 Medi 2023.
- 4.27 Yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu, pan fo plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 6 (gweler paragraff 4.1) yn symud i flwyddyn orfodol 2022 i 2023 ar ôl 1 Medi 2022 (gweler yr enghraifft ym mharagraff 4.28), rhaid i'r awdurdod lleol naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a rhiant y plentyn, yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024³⁹. Mae'r system ADY yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad, ac nid yw'r system AAA yn berthnasol bellach. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn neu ei rieni yn

³⁸ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 13.

³⁹ Yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn o weithredu, rhaid cymryd y camau gweithredu hyn pan fydd plentyn yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl 1 Medi.

gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU, neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY.

- 4.28 Enghraifft o blentyn yn symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol fyddai plentyn yn symud ymlaen blwyddyn o Flwyddyn 5 i Flwyddyn 6.

Galluedd

- 4.29 Nid oes rhaid i awdurdodau lleol roi hysbysiad na chopi o CDU i blentyn lle nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall yr wybodaeth yn yr hysbysiad CDU⁴⁰.

Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc

- 4.30 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad neu'r CDU i'r person ifanc yn unig. Nid yw'r ddyletswydd i roi'r hysbysiad i riant neu ymateb i gais yn berthnasol.

Cydsyniad

- 4.31 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol gael cydsyniad y person ifanc i wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY. Y rheswm am hyn yw bod gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gydsynio bod CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ei gadw.
- 4.32 Os nad yw person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY, ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gan fod angen gwneud penderfyniad i wneud hyn. Pan fo person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ond nid yw'n cydsynio bod CDU yn cael ei baratoi, ei gynnal neu (yn achos person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r ddyletswydd i lunio CDU yn berthnasol.

⁴⁰ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed\) 2021 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6\) 2021.](#)

5. Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy (nad ydynt yn derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac a oedd ag achos datganiad ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022 neu nad oeddent yn dod o dan Orchymnion Cychwyn 5 neu 6 gan nad oeddent yn mynychu ysgol a gynhelir ar 1 Ionawr 2022

- 5.1 Mae Gorchymyn Cychwyn 13 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD a oedd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Medi 2022 ac nad ydynt yn derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.
- 5.2 Rhaid i ysgolion ac UCDAu symud plant a ddisgrifir ym mharagraff 5.1 o'r system AAA i'r system ADY trwy hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43) pan fyddant yn dod o dan un o'r blynyddoedd canlynol:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11⁴¹
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6a Blwyddyn 10⁴².
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Blwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym blwyddyn ysgol 2023-24

Cyhoeddi CDU

- 5.3 Rhaid i ysgolion ac UCDAu gyhoeddi CDU o fewn 35 diwrnod ysgol i gyhoeddi'r hysbysiad CDU ac eithrio yn y sefyllfaoedd canlynol:
- mae unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 12(2) o'r Ddeddf yn berthnasol,
 - mae adran 31 o'r Ddeddf yn berthnasol, neu
 - mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol⁴³.
- 5.4 Os oes amgylchiadau eithriadol yn bodoli, rhaid rhoi copi o'r CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

⁴¹ Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 9.

⁴² Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 10.

⁴³ Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 12.

- 5.5 Nid yw'r amserlenni yn y Cod ADY sy'n ymwneud â llunio CDU gan gorff llywodraethu, UCD neu awdurdod lleol yn berthnasol os yw CDU yn cael ei lunio ar ôl rhoi hysbysiad CDU.
- 5.6 Wrth lunio CDU, rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 99 i 100 ar gyfer ysgolion ac UCDAu, neu tudalennau 109 i 111 ar gyfer awdurdodau lleol)⁴⁴.

Galluedd

- 5.7 Nid oes rhaid i ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol roi hysbysiad na chopi o CDU i blentyn lle nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall yr wybodaeth yn yr hysbysiad CDU⁴⁵.

Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc

- 5.8 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i ysgol, UCD neu awdurdod lleol roi hysbysiad, mae'n rhaid i'r ysgol neu'r UCD neu'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad neu'r CDU i'r person ifanc yn unig. Nid yw'r ddyletswydd i roi'r hysbysiad i riant neu ymateb i gais yn berthnasol.

Cydsyniad

- 5.9 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i ysgol neu UCD roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, bydd angen i'r ysgol neu'r CDU gael cydsyniad y person ifanc i wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY. Y rheswm am hyn yw bod gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gydsynio bod CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ei gadw.
- 5.10 Os nad yw person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY, ni fydd yr ysgol neu'r UCD yn gallu cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gan fod angen gwneud penderfyniad i wneud hyn. Pan fo person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ond nid yw'n cydsynio i CDU gael ei lunio, ei gynnal neu (yn achos person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r ddyletswydd i lunio CDU yn berthnasol.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

- 5.11 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 13, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn am hysbysiad CDU⁴⁶ (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am wybodaeth am yr

⁴⁴ Gorchymyn Cychwyn 13, erthyglau 19 ac 20.

⁴⁵ Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 21.

⁴⁶ Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 11.

hawl i ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 11.59 i 11.61 am yr hawl i ofyn am hysbysiad ADY).

- 5.12 Os gofynnir am hysbysiad CDU, rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn y cais. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw ac mae gan yr ysgol neu'r UCD 35 diwrnod ysgol i baratoi CDU ar gyfer y plentyn pan fo hysbysiad CDU wedi'i roi.

Hysbysiad ADY

- 5.13 Gall yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun, roi hysbysiad ADY mewn amgylchiadau eithriadol (gweler paragraffau 11.29 i 11.32 i gael esboniad o amgylchiadau eithriadol). Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud unrhyw blentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 13, waeth a yw'n parhau i fod wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir ai peidio, i'r system ADY ar unrhyw adeg⁴⁷.
- 5.14 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 13 ac sydd, mewn amgylchiadau penodol, yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, a'u rhieni, ofyn i'r awdurdod lleol priodol eu symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad drwy ofyn am hysbysiad ADY, ac yn dilyn cais o'r fath rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY (gweler paragraffau 11.59 i 11.61 i gael gwybodaeth am ofyn am hysbysiad ADY)⁴⁸.
- 5.15 Effaith yr hysbysiad ADY yw bod y system ADY yn berthnasol ar ddyddiad yr hysbysiad a bod y system AAA yn peidio â bod yn berthnasol ar y dyddiad hwnnw.
- 5.16 Mae hyn yn golygu bod y dyletswyddau yn y Ddeddf ADY ar ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol i wneud penderfyniad, a lle bo angen, llunio CDU ar gyfer y plentyn, yn berthnasol.

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol

- 5.17 Os nad yw ysgol neu UCD yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw wedi symud i'r system ADY eisoes) a'i riant, mae Gorchymyn Cychwyn 13 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst)⁴⁹. Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yn golygu, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, y bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r

⁴⁷ Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 13.

⁴⁸ Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 13.

⁴⁹ Gorchymyn Cychwyn 13, erthyglau 14 ac 15.

plentyn a bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Newid mewn amgylchiadau

5.18 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 13, nad ydynt eisoes wedi'u symud i'r system ADY, yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY lle mae eu hamgylchiadau wedi newid yn un o'r ffyrdd canlynol:

- wedi peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu'r UCD lle'r oedd y plentyn yn ddisgybl cofrestredig ar 1 Medi 2022, ac eithrio pan fo'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig oherwydd ei fod yn pontio'n arferol neu oherwydd cau ysgol/UCD⁵⁰;
- wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl 1 Medi 2022, daeth yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr ymrestredig mewn sefydliad arall hefyd (hynny yw, wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano⁵¹; neu
- wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022 ac, ar ryw adeg ar ôl 1 Medi 2022, daeth yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru⁵².

Symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

5.19 Pan fo plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 13 yn symud i flwyddyn orfodol 2022 i 2023 ar ôl 1 Medi 2022, rhaid i'r ysgol neu'r UCD naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a rhieni'r plentyn, yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024. Mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad, ac nid yw'r system AAA yn berthnasol bellach. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn neu ei rieni yn gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU, neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY.

⁵⁰ Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 16.

⁵¹ Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 17.

⁵² Gorchymyn Cychwyn 13, erthygl 18.

6. Plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy (sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad) ac a oedd ag achos datganiad ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022 neu nad oeddent yn dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 neu 6 gan nad oeddent yn mynychu ysgol a gynhelir ar 1 Ionawr 2022

- 6.1 Mae Gorchymyn Cychwyn 14 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD a oedd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022, sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ar 1 Medi 2022 ac sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.
- 6.2 Rhaid i awdurdodau lleol symud plant a ddisgrifir ym mharagraff 6.1 o'r system AAA i'r system ADY trwy hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43 pan fyddant yn dod o dan y blynyddoedd canlynol:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11⁵³
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10⁵⁴.
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Mlwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023-24

Cyhoeddi CDU

- 6.3 Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi CDU o fewn 12 wythnos i gyhoeddi'r hysbysiad CDU oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol⁵⁵.
- 6.4 Pan fo amgylchiadau eithriadol yn bodoli, rhaid rhoi copi o'r CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 6.5 Nid yw'r amserlenni yn y Cod ADY sy'n ymwneud â llunio CDU gan gorff llywodraethu neu UCD yn berthnasol os yw CDU yn cael ei lunio ar ôl rhoi hysbysiad CDU⁵⁶.
- 6.6 Wrth lunio CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn

⁵³ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 9.

⁵⁴ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 10.

⁵⁵ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 12.

⁵⁶ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 12.

ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 109 i 111)⁵⁷.

Galluedd

- 6.7 Nid oes rhaid i awdurdodau lleol roi hysbysiad na chopi o CDU i blentyn lle nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall yr wybodaeth yn yr hysbysiad CDU⁵⁸.

Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc

- 6.8 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad, dim ond i'r person ifanc y mae'n rhaid i'r ysgol neu'r UCD neu'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad neu'r CDU. Nid yw'r ddyletswydd i roi'r hysbysiad i riant neu ymateb i gais yn berthnasol.

Cydsyniad

- 6.9 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol gael cydsyniad y person ifanc i wneud penderfyniad a oes ganddo ADY. Y rheswm am hyn yw bod gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gydsynio bod CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ei gadw.
- 6.10 Os nad yw person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY, ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gan fod angen gwneud penderfyniad i wneud hyn. Pan fo person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ond nid yw'n cydsynio bod CDU yn cael ei lunio, ei gynnal neu (yn achos person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r ddyletswydd i lunio CDU yn berthnasol.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

- 6.11 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn am hysbysiad CDU⁵⁹ (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am wybodaeth am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU).
- 6.12 Os gofynnir am hysbysiad CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod gwaith i dderbyn y cais (gweler paragraffau 11.38 i 11.43 i gael gwybodaeth am hysbysiadau). Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw ac mae gan yr ysgol neu'r

⁵⁷ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 19.

⁵⁸ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 21.

⁵⁹ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 11.

UCD 12 wythnos i lunio CDU ar gyfer y plentyn os yw hysbysiad CDU wedi'i roi.

Hysbysiad ADY

- 6.13 Gall yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun, roi hysbysiad ADY (gweler paragraffau 11.2 i 11.5) mewn amgylchiadau eithriadol⁶⁰. Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud unrhyw blentyn, sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14, o'r system AAA i'r system ADY.
- 6.14 Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw ac mae gan yr ysgol neu'r UCD 12 wythnos i baratoi CDU ar gyfer y plentyn os yw hysbysiad CDU wedi'i roi.

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol

- 6.15 Os nad yw awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant, mae Gorchymyn Cychwyn 14 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yn golygu bod y Ddeddf ADY a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Newid mewn amgylchiadau

- 6.16 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14, nad ydynt eisoes wedi'u symud i'r system ADY, yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY pan fo eu hamgylchiadau wedi newid yn un o'r ffyrdd canlynol:
- nid oedd y plentyn yn derbyn gofal ac wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ar 1 Medi 2022, ac wedi hynny nid oedd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad mwyach⁶¹
 - roedd y plentyn yn derbyn gofal ar 1 Medi 2022 ac wedi hynny peidiodd â bod yn blentyn oedd yn derbyn gofal⁶².

Symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

- 6.17 Pan fo plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14 yn symud i flwyddyn orfodol 2022 i 2023 ar ôl 1 Medi 2022, rhaid i'r ysgol neu'r UCD naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a rhieni'r plentyn, yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024. Mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y

⁶⁰ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 13.

⁶¹ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 16.

⁶² Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 17.

cod ADY, yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad, ac nid yw'r system AAA yn berthnasol bellach. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn neu ei rieni yn gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU, neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY.

7. Plant sydd â datganiad ar 1 Medi 2022

- 7.1 Mae Gorchymyn Cychwyn 8 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 a oedd â datganiad ar 1 Medi 2022.
- 7.2 Nid yw'r trefniadau y darperir ar eu cyfer yng Ngorchymyn Cychwyn 8 yn cynnwys person ifanc a fyddai fel arfer ym Mlwyddyn 12 sydd wedi'i ddal yn ôl ym Mlwyddyn 11. Y rheswm am hyn yw bod y trefniadau yn berthnasol i blant yn unig, ac nid ydynt yn berthnasol i bobl ifanc.
- 7.3 Rhaid i awdurdodau lleol symud plant sydd â datganiad ar 1 Medi 2022 (ond nid datganiad ar y gweill) o'r system AAA i'r system ADY trwy hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU pan fo'r plant hynny'n dod o dan un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: o dan oedran ysgol gorfodol neu blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 6, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11⁶³
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6 a Blwyddyn 10⁶⁴.
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9 ym mlwyddyn ysgol 2023-24
- 7.4 Nid yw'r ddyletswydd i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU yn berthnasol pan fydd apêl yn parhau mewn perthynas â phlentyn.
- 7.5 Ac eithrio lle mae plentyn, neu ei riant, yn gofyn am hysbysiad CDU, gall awdurdodau lleol gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU ar unrhyw adeg rhwng 1 Medi a 30 Awst mewn blwyddyn orfodol benodol. Gallai awdurdodau lleol, er enghraifft, gyhoeddi hysbysiad CDU cyn dyddiad adolygiad blynyddol y datganiad, a gallent gynnal cyfarfod am y CDU yn hytrach na'r adolygiad blynyddol.
- 7.6 Yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023, bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am drefnu ac ariannu lleoliadau ar gyfer plant ym Mlwyddyn 11 sydd angen lleoliad coleg arbenigol o fis Medi 2023⁶⁵. Daw'r ddyletswydd hon i rym unwaith y bydd plentyn wedi symud i'r system newydd. Er mwyn hwyluso proses cynllunio pontio effeithiol ar gyfer plant ym Mlwyddyn 11 sy'n symud i addysg arbennig ôl-16, yn enwedig y rhai y gallai fod angen lleoliad arbenigol arnynt mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, er enghraifft, dylai awdurdodau lleol symud plant ym Mlwyddyn 11 o'r system AAA i'r system ADY yn ystod tymor yr hydref 2022 i 2023.
- 7.7 Pan fydd plentyn ym Mlwyddyn 11 yn ymwneud ag achos datganiad ar y gweill, ni fydd yn bosibl i'r awdurdod lleol symud y plentyn o'r system AAA i'r system ADY nes bod yr achos hwnnw wedi dod i ben. Mewn achosion o'r

⁶³ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 9.

⁶⁴ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 10.

⁶⁵ Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trefniadau dros dro i awdurdodau lleol hawlio cost y lleoliadau hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth am y trefniadau ariannu ar gael yn [Canllawiau i awdurdodau lleol ar drefniadau dros dro ar gyllid ar gyfer lleoliadau arbenigol ADY ôl-16](#).

fath, dylai'r awdurdod lleol wneud gwaith paratoi, fel bod yr awdurdod lleol mewn sefyllfa i gyhoeddi'r hysbysiad CDU a'r CDU cyn gynted â phosibl.

Cyhoeddi CDU

- 7.8 Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi CDU o fewn 12 wythnos i gyhoeddi'r hysbysiad CDU oni bai bod eithriadau neu amgylchiadau eithriadol yn berthnasol⁶⁶.
- 7.9 Os oes amgylchiadau eithriadol yn bodoli, rhaid rhoi copi o'r CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 7.10 Nid yw'r amserlenni yn y Cod ADY sy'n ymwneud â llunio CDU gan awdurdod lleol yn berthnasol os yw CDU yn cael ei lunio ar ôl rhoi hysbysiad CDU⁶⁷.
- 7.11 Wrth lunio CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 109 i 111)⁶⁸.

Galluedd

- 7.12 Nid oes rhaid i awdurdodau lleol roi hysbysiad na chopi o CDU i blentyn lle nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall yr wybodaeth yn yr hysbysiad o CDU⁶⁹.

Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc

- 7.13 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad, dim ond i'r person ifanc y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad neu'r CDU. Nid yw'r ddyletswydd i roi'r hysbysiad i riant neu ymateb i gais yn berthnasol.

Cydsyniad

- 7.14 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol gael cydsyniad y person ifanc i wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY. Y rheswm am hyn yw bod gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gydsynio bod CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ei gadw.
- 7.15 Os nad yw person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY, ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gan fod angen gwneud

⁶⁶ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 13.

⁶⁷ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 13.

⁶⁸ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 22.

⁶⁹ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 23.

penderfyniad i wneud hyn. Pan fo person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ond nid yw'n cydsynio bod CDU yn cael ei lunio, ei gynnal neu (yn achos person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r ddyletswydd i lunio CDU yn berthnasol.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

- 7.16 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn am hysbysiad CDU⁷⁰ (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 am wybodaeth am yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU).
- 7.17 Os gofynnir am hysbysiad CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cais (gweler paragraffau 11.38 i 11.43 am wybodaeth ynghylch hysbysiadau). Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw ac mae gan yr ysgol neu'r UCD 12 wythnos i lunio CDU ar gyfer y plentyn os yw hysbysiad CDU wedi'i roi.

Hysbysiad ADY

- 7.18 Gall yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun, roi hysbysiad ADY (gweler paragraffau 11.2 i 11.5) mewn amgylchiadau eithriadol⁷¹. Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud unrhyw blentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8 o'r system AAA i'r system ADY.
- 7.19 Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw ac mae gan yr Awdurdod Lleol 12 wythnos i lunio CDU ar gyfer y plentyn os yw hysbysiad CDU wedi'i roi.

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol

- 7.20 Os nad yw awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant, mae Gorchymyn Cychwyn 8 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn sydd â datganiad (nad oes ganddo achos ar y gweill) nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yn golygu bod y Ddeddf ADY a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

⁷⁰ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 12.

⁷¹ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 13.

- 7.21 Bydd trefniadau ar gyfer sut mae plant â datganiad sydd ag achos ar y gweill yn symud yn awtomatig i'r system ADY wedi'u nodi yn adran 8.

Newid mewn amgylchiadau

- 7.22 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8, nad ydynt eisoes wedi'u symud i'r system ADY, yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY lle mae eu hamgylchiadau wedi newid yn un o'r ffyrdd canlynol:
- mae datganiad y plentyn yn peidio â chael ei gynnal
 - mae plentyn, a oedd â datganiad ar 1 Medi 2022, yn symud o ardal yr awdurdod lleol a oedd yn cynnal ei ddatganiad ar 1 Medi 2022.

Symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

- 7.23 Pan fo plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8 yn symud i flwyddyn orfodol 2022 i 2023 ar ôl 1 Medi 2022, rhaid i'r awdurdod lleol naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a rhieni'r plentyn, yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024. Mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad, ac nid yw'r system AAA yn berthnasol bellach. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn neu ei rieni yn gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU, neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY.

8. Symud plant o'r system AAA i'r system ADY os ydynt yn ymwneud ag achos datganiad ar y gweill

- 8.1 Mae Gorchymyn Cychwyn 8 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 a oedd â datganiad ar y gweill ar 1 Medi 2022.
- 8.2 Nid yw'r trefniadau y darperir ar eu cyfer yng Ngorchymyn Cychwyn 8 yn cynnwys person ifanc a fyddai fel arfer ym Mlwyddyn 12 sydd wedi'i ddal yn ôl ym Mlwyddyn 11. Y rheswm am hyn yw bod y trefniadau yn berthnasol i blant yn unig, ac nid ydynt yn berthnasol i bobl ifanc.
- 8.3 Os na roddwyd hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i blentyn yn y flwyddyn ysgol roedd yr awdurdod lleol i fod i'w symud oherwydd ei fod yn ymwneud ag apêl, neu fod y cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl wedi dod i ben, ac nad yw'r plentyn wedi symud i'r system ADY fel arall, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a'i riant, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar ôl:
- i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl ddod i ben, os nad oes apêl wedi'i chyflwyno; neu
 - pan fydd apêl wedi'i chyflwyno a bod penderfyniad terfynol wedi'i wneud⁷².
- 8.4 Os na roddwyd hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i blentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8 oherwydd bod y plentyn yn ymwneud ag achos ar y gweill sy'n parhau ar 30 Awst 2025, bydd y plentyn yn trosglwyddo i'r system ADY:
- y diwrnod ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl ddod i ben, lle nad oes apêl wedi'i chyflwyno
 - y diwrnod ar ôl i'r apêl gael ei phenderfynu'n derfynol, ac eithrio pan fydd yr awdurdod lleol yn cael gorchymyn i roi cam gweithredu ar waith
 - pan fydd yr awdurdod lleol yn cael gorchymyn i weithredu yn sgil penderfyniad terfynol yr apêl ac nad yw'r cam gweithredu wedi'i gwblhau erbyn 30 Awst 2023, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig ar y diwrnod trosglwyddo⁷³. Mae'r diwrnod trosglwyddo yn golygu'r diwrnod ar ôl cymryd y cam gweithredu, neu'r holl gamau os oes mwy nag un.

Cyhoeddi CDU

- 8.5 Rhaid cyflwyno CDU o fewn 12 wythnos i gyhoeddi'r hysbysiad CDU ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:
- mae unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 12(2) o'r Ddeddf yn berthnasol,

⁷² Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 11.

⁷³ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 19.

- mae adran 31 o'r Ddeddf yn berthnasol, neu
 - mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.⁷⁴
- 8.6 Os oes unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 12(2) o'r Ddeddf ADY yn berthnasol, os yw adran 31 o'r Ddeddf ADY yn berthnasol, neu os oes amgylchiadau eithriadol ar waith, rhaid rhoi copi o'r CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 8.7 Nid yw'r amserlenni yn y cod sy'n ymwneud â llunio cynllun datblygu unigol yn berthnasol os yw cynllun datblygu unigol yn cael ei baratoi ar ôl rhoi hysbysiad CDU⁷⁵.
- 8.8 Wrth baratoi CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i gynnwys y datganiad a oedd yn cael ei gynnal cyn symud i'r gyfraith newydd⁷⁶. Bydd hyn yn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 109 i 111).

Galluedd

- 8.9 Nid oes rhaid i awdurdodau lleol roi hysbysiad na chopi o CDU i blentyn lle nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall yr wybodaeth yn yr hysbysiad o CDU⁷⁷.

Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc

- 8.10 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad, dim ond i'r person ifanc y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad neu'r CDU. Nid yw'r ddyletswydd i roi'r hysbysiad i riant neu ymateb i gais yn berthnasol.

Cydsyniad

- 8.11 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol gael cydsyniad y person ifanc i wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY. Y rheswm am hyn yw bod gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gydsynio bod CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ei gadw.
- 8.12 Os nad yw person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY, ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gan fod angen gwneud penderfyniad i wneud hyn. Pan fo person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ond nid yw'n cydsynio bod CDU yn cael ei

⁷⁴ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 13.

⁷⁵ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 13.

⁷⁶ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 22.

⁷⁷ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 23.

lunio, ei gynnal neu (yn achos person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r ddyletswydd i lunio CDU yn berthnasol.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

- 8.13 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn am hysbysiad CDU.
- 8.14 Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i riant cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn cais am yr hysbysiad⁷⁸.
- 8.15 Yn wahanol i Orchymyn Cychwyn 6 a Gorchymyn Cychwyn 14, nid yw Gorchymyn Cychwyn 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais. Y rheswm am hyn yw y bydd achosion yn codi lle mae datganiad ar y gweill wedi ei benderfynu'n derfynol ac mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â gorchymyn a roddwyd gan y Tribiwnlys.
- 8.16 Pan fydd cais yn cael ei wneud i symud i'r system ADY ac nad oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw orchymyn Tribiwnlys, disgwylir y bydd yr awdurdod lleol yn cyhoeddi hysbysiad CDU o fewn 15 diwrnod gwaith.
- 8.17 Nid yw'r hawl i wneud cais yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:
- mae apêl ar waith mewn perthynas â phlentyn, neu
 - mae'r plentyn wedi symud yn awtomatig i'r system ADY oherwydd, er enghraifft, newid mewn amgylchiadau⁷⁹.

Hysbysiad ADY

- 8.18 Gall yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun, roi hysbysiad ADY mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud unrhyw blentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8 oni bai bod apêl yn parhau mewn perthynas â'r plentyn⁸⁰.

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol

- 8.19 Os nad yw awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant, mae Gorchymyn Cychwyn 8 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yn golygu, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, y bydd

⁷⁸ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 12.

⁷⁹ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 12.

⁸⁰ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 14.

y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn ac y bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol⁸¹.

- 8.20 Nid yw'r cam symud yn awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn yn berthnasol i blentyn mewn blwyddyn sy'n symud yn orfodol yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023, lle mae'r awdurdod lleol yn cael gorchymyn i weithredu yn sgil penderfyniad terfynol mewn apêl barhaus o dan y system AAA ac nad yw'r cam wedi'i gymryd erbyn 30 Awst 2023.
- 8.21 Yn yr achos hwn, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar y diwrnod ar ôl i'r cam gweithredu gael ei gymryd (neu'r holl gamau, os oes mwy nag un).
- 8.22 Yn ogystal, nid yw'r broses o symud yn awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn yn berthnasol pan fo plentyn sydd mewn blwyddyn sy'n symud yn orfodol yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023 yn ymwneud ag apêl barhaus ar 30 Awst 2023. Yn yr achos hwn, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig ar y dyddiad trosglwyddo. Yn y sefyllfa hon, y diwrnod trosglwyddo yw:
- (a) y diwrnod ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl ddod i ben, lle nad oes apêl wedi'i chyflwyno;
 - (b) oni bai bod paragraff (c) yn berthnasol, y diwrnod ar ôl i'r apêl gael ei phenderfynu yn derfynol, os oes apêl wedi'i chyflwyno;
 - (c) y diwrnod ar ôl i'r awdurdod lleol roi'r cam gweithredu ar waith (neu'r holl gamau gweithredu os oes mwy nag un cam gweithredu) os yw'r awdurdod lleol yn cael gorchymyn i weithredu ar ôl i'r apêl gael ei phenderfynu yn derfynol.
- 8.23 Os nad yw plentyn wedi symud i'r system ADY erbyn 30 Awst 2025, mae Gorchymyn Cychwyn 8 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl yn symud i'r system ADY. Byddant yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2025. Mae'r ddarpariaeth yn golygu y bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn ac y bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn.
- 8.24 Nid yw hyn yn berthnasol i blentyn lle mae'r awdurdod lleol yn cael gorchymyn i weithredu gan fod apêl barhaus o dan y system AAA wedi'i phenderfynu yn derfynol ac nad yw'r cam gweithredu wedi'i gymryd erbyn 30 Awst 2024. Yn yr achos hwn, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar y diwrnod ar ôl i'r cam gweithredu gael ei gymryd (neu'r holl gamau, os oes mwy nag un).
- 8.25 Yn ogystal, nid yw'r broses o symud yn awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn yn berthnasol pan fo plentyn yn ymwneud ag apêl barhaus ar 30 Awst 2025. Yn yr achos hwn, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig ar y dyddiad trosglwyddo. Yn y sefyllfa hon, y diwrnod trosglwyddo yw:

⁸¹ Gorchymyn Cychwyn 8, erthyglau 15 ac 17.

- (a) y diwrnod ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl ddod i ben, lle nad oes apêl wedi'i chyflwyno
- (b) oni bai bod paragraff (c) yn berthnasol, y diwrnod ar ôl i'r apêl gael ei phenderfynu yn derfynol, os oes apêl wedi'i chyflwyno
- (c) y diwrnod ar ôl i'r awdurdod lleol roi'r cam gweithredu ar waith (neu'r holl gamau gweithredu os oes mwy nag un cam gweithredu) os yw'r awdurdod lleol yn cael gorchymyn i weithredu ar ôl i'r apêl gael ei phenderfynu yn derfynol).

Newid mewn amgylchiadau

8.26 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8, nad ydynt wedi'u symud eisoes i'r system ADY, yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY yn yr amgylchiadau canlynol:

- mae awdurdod lleol yn peidio â chynnal eu datganiad⁸², neu
- mae plentyn yn symud o ardal yr awdurdod lleol a oedd yn cynnal ei ddatganiad ar 1 Medi 2022⁸³.

8.27 Pan fydd awdurdod lleol yn peidio â chynnal datganiad ar gyfer plentyn oedd â datganiad ar 1 Medi 2022, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar y dyddiad y bydd yr awdurdod lleol yn peidio â chynnal y datganiad, a bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn.

Symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

8.28 Pan fydd plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 8 yn symud i flwyddyn orfodol 2022 i 2023 ar ôl 1 Medi 2022, rhaid i'r awdurdod lleol priodol naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a rhieni'r plentyn, yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024. Mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad, ac nid yw'r system AAA yn berthnasol bellach. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn neu ei rieni yn gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU, neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY.

⁸² Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 20.

⁸³ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 21.

9. Plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 sydd ag achos ar y gweill cyn datganiad

- 9.1 Mae Gorchymyn Cychwyn 9 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 sydd ag achos ar y gweill cyn datganiad ar 1 Medi 2022 (gweler paragraffau 11.46 i 11.47 ar gyfer diffiniad o achosion ar y gweill).
- 9.2 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 9 yn cynnwys plant sydd ag achos datganiad ar y gweill. Darperir ar gyfer trefniadau i blant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 a oedd yn ymwneud ag achos ar y gweill cyn datganiad ar 1 Medi 2022 yng Ngorchymyn Cychwyn 8 (gweler adran 7).

Cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU

- 9.3 Rhaid i awdurdodau lleol symud plant sy'n ymwneud ag achos ar y gweill cyn datganiad trwy roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU iddynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 1 Medi 2022⁸⁴, oni bai bod apêl ar waith o dan adrannau 329(2), 329A(8) neu 325(2) o Ddeddf 1996.
- 9.4 Os oes apêl wedi'i chyflwyno i'r Tribiwnlys o dan adrannau 329(2), 329A(8) neu 325(2) o Ddeddf 1996 a bod yr apêl ar waith ar 1 Medi 2022, dylai'r awdurdod lleol priodol naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a'i rieni, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r apêl gael ei phenderfynu'n derfynol.

Cyhoeddi CDU

- 9.5 Rhaid cyflwyno CDU o fewn 12 wythnos i gyhoeddi'r hysbysiad CDU ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:
- mae unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 12(2) o'r Ddeddf yn berthnasol
 - mae adran 31 o'r Ddeddf yn berthnasol, neu
 - mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol⁸⁵.
- 9.6 Os oes unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 12(2) yn berthnasol, neu os oes amgylchiadau eithriadol, rhaid rhoi copi o'r CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 9.7 Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol, ysgol neu UCD baratoi cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn o fewn 12 wythnos i symud i'r gyfraith newydd, rhaid i'r awdurdod lleol neu'r ysgol roi sylw i unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig oedd yn cael ei darparu i'r plentyn yn union cyn iddo symud i'r system ADY⁸⁶.

⁸⁴ Gorchymyn Cychwyn 9, erthygl 9.

⁸⁵ Gorchymyn Cychwyn 9, erthygl 11.

⁸⁶ Gorchymyn Cychwyn 9, erthygl 16.

- 9.8 Nid yw'r amserlenni yn y cod sy'n ymwneud â pharatoi cynllun datblygu unigol yn berthnasol os yw cynllun datblygu unigol yn cael ei baratoi ar ôl rhoi hysbysiad CDU⁸⁷.

Galluedd

- 9.9 Nid oes rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion roi hysbysiad na chopi o CDU i blentyn lle nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall yr wybodaeth yn yr hysbysiad CDU⁸⁸.

Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc

- 9.10 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad, dim ond i'r person ifanc y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad neu'r CDU. Nid yw'r ddyletswydd i roi'r hysbysiad i riant neu ymateb i gais yn berthnasol.

Cydsyniad

- 9.11 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol gael cydsyniad y person ifanc i wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY. Y rheswm am hyn yw bod gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gydsynio bod CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ei gadw.
- 9.12 Os nad yw person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY, ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gan fod angen gwneud penderfyniad i wneud hyn. Pan fo person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ond nid yw'n cydsynio bod CDU yn cael ei lunio, ei gynnal neu (yn achos person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r ddyletswydd i lunio CDU yn berthnasol.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

- 9.13 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 9, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn am hysbysiad CDU⁸⁹.
- 9.14 Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn a'i riant cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn cais am hysbysiad.
- 9.15 Yn wahanol i Orchymyn Cychwyn 6 a Gorchymyn Cychwyn 14, nid yw Gorchymyn Cychwyn 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol roi

⁸⁷ Gorchymyn Cychwyn 9, erthygl 11.

⁸⁸ Gorchymyn Cychwyn 9, erthygl 17.

⁸⁹ Gorchymyn Cychwyn 9, erthygl 10.

hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais. Y rheswm am hyn yw y bydd achosion yn codi lle mae datganiad ar y gweill wedi ei benderfynu'n derfynol ac mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â gorchymyn a roddwyd gan y Tribiwnlys.

- 9.16 Pan fydd cais yn cael ei wneud i symud i'r system ADY ac nad oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw orchymyn Tribiwnlys, disgwylir y bydd yr awdurdod lleol yn cyhoeddi hysbysiad CDU o fewn 15 diwrnod gwaith.
- 9.17 Nid yw'r hawl i wneud cais yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:
- mae achos ar y gweill cyn datganiad yn parhau mewn perthynas â phlentyn; neu
 - mae'r plentyn wedi symud yn awtomatig i'r system ADY oherwydd, er enghraifft, newid mewn amgylchiadau.

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y cyfnod gweithredu

- 9.18 Os nad yw awdurdod lleol wedi cael y cyfle i symud plentyn i'r system ADY ar 30 Awst 2025, mae Gorchymyn Cychwyn 9 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob plentyn yn symud i'r system ADY.
- 9.19 Bydd plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2025 oni bai:
- bod y plentyn yn ymwneud ag apêl; neu
 - mae'r awdurdod lleol wedi cael gorchymyn i ymgymryd â cham gweithredu ar ôl penderfyniad terfynol ar apêl ac nad yw'r cam gweithredu wedi'i gyflawni erbyn 30 Awst 2025⁹⁰.
- 9.20 Mae hyn yn golygu y bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn ar 31 Awst 2025 ac y bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.
- 9.21 Os oes unrhyw un o'r amgylchiadau ym mharagraff 9.19 yn berthnasol, bydd plentyn yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY ar y diwrnod ar ôl i'r apêl gael ei phenderfynu yn derfynol neu (lle mae'r awdurdod lleol wedi cael gorchymyn i weithredu) y diwrnod ar ôl i'r cam gweithredu gael ei gwblhau, neu'r holl gamau gweithredu os oes mwy nag un (cyfeirir at y dyddiad hwn fel y diwrnod trosglwyddo).

Newid mewn amgylchiadau

- 9.22 Bydd plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 9, nad yw wedi'i symud eisoes i'r system ADY, yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY os yw'n symud o ardal yr awdurdod lleol lle'r oedd y plentyn yn byw ar 1 Medi 2022.

⁹⁰ Gorchymyn Cychwyn 9, erthygl 12.

10. Plant sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad oeddent yn mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022

- 10.1 Bydd plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 a oedd yn derbyn darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad oeddent wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022 yn symud o'r system AAA i'r system ADY trwy un o ddwy ffordd, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau:
- symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY: bydd plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022, ac nad ydynt yn derbyn gofal neu nad ydynt yn ddysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 1 Medi 2022 (Gorchymyn Cychwyn 11); neu
 - cael eu symud o'r system AAA i'r system ADY pan fo'r awdurdod lleol yn cyflwyno hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU: bydd plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022, ac sy'n derbyn gofal neu yn ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yn symud yn awtomatig i'r system ADY yn ystod blwyddyn orfodol (Gorchymyn Cychwyn 14).
- 10.2 Mae'r ddau ddull yn adlewyrchu i ba raddau y bydd awdurdodau lleol yn gwybod am blant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD. Bydd awdurdodau lleol yn gwybod am blant nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu UCD sy'n ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, neu'n blant sy'n derbyn gofal. Felly, mae'n bosibl i awdurdodau lleol gyhoeddi hysbysiadau CDU neu hysbysiadau dim CDU i symud y plant hyn.
- 10.3 Ni fydd awdurdodau lleol yn gwybod o reidrwydd am blant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD nad ydynt yn ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, neu'n blant sy'n derbyn gofal. Felly, ni fyddai'n bosibl i awdurdodau lleol symud y plant hyn drwy hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU. Felly, bydd y plant hyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 1 Medi 2022.
- 10.4 Nid yw Gorchymynion Cychwyn 11 a 14 yn berthnasol i blant a oedd â datganiad ac nad oeddent wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022 – Gorchymyn Cychwyn 8 sy'n berthnasol i'r plant hyn.
- 10.5 Mae Gorchymyn Cychwyn 14 yn rhoi cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol.
- 10.6 Mae'r broses o symud plant a ddisgrifir yn 10.1 o'r system AAA i'r system ADY yn cael ei thrafod yn yr adrannau canlynol.

Plant nad ydynt yn derbyn gofal nac yn ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

- 10.7 Mae Gorchymyn Cychwyn 11 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 a oedd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad oeddent wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022 ac nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal neu'n ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.
- 10.8 Bydd plant sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff 10.7 yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 1 Medi 2022. Mae hyn yn golygu bod y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plant hyn ar 1 Medi 2022 a, phan fo'r ffaith bod gan blentyn ADY yn cael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol neu'n ymddangos iddo mewn ffordd arall, rhaid i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad a, lle bo angen, llunio CDU.

Plant sy'n ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol neu sy'n derbyn gofal

- 10.9 Mae Gorchymyn Cychwyn 14 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 a oedd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad oeddent wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ar 1 Medi 2022 ac sy'n blant sy'n derbyn gofal neu'n ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.
- 10.10 Rhaid i awdurdodau lleol symud plant a ddisgrifir ym mharagraff 10.9 o'r system AAA i'r system ADY trwy hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU pan fyddant yn perthyn i un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6a Blwyddyn 10⁹¹.
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9 ym mlwyddyn ysgol 2023-24

Cyhoeddi CDU

- 10.11 Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi CDU o fewn 12 wythnos i gyhoeddi'r hysbysiad CDU ac eithrio yn y sefyllfaoedd canlynol:
- mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol; neu
 - mae adran 31 o'r Ddeddf yn berthnasol⁹².
- 10.12 Os oes amgylchiadau eithriadol yn bodoli, rhaid rhoi copi o'r CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

⁹¹ Gorchymyn Cychwyn 14, erthyglau 9 ac 10.

⁹² Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 12.

- 10.13 Nid yw'r amserlenni yn y Cod ADY sy'n ymwneud â llunio CDU yn berthnasol os yw CDU yn cael ei lunio ar ôl rhoi hysbysiad CDU⁹³.
- 10.14 Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol lunio cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn o fewn 12 wythnos i symud i'r system ADY, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a oedd yn cael ei darparu i'r plentyn yn union cyn symud i'r gyfraith newydd. Bydd hyn yn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 109 i 111)⁹⁴.

Galluedd

- 10.15 Nid oes rhaid i awdurdodau lleol roi hysbysiad na chopi o CDU i blentyn lle nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall yr wybodaeth yn yr hysbysiad CDU⁹⁵.

Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc

- 10.16 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad, dim ond i'r person ifanc y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad neu'r CDU. Nid yw'r ddyletswydd i roi'r hysbysiad i riant neu ymateb i gais yn berthnasol.

Cydsyniad

- 10.17 Pan fo plentyn wedi dod yn berson ifanc cyn i awdurdod lleol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol gael cydsyniad y person ifanc i wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY. Y rheswm am hyn yw bod gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gydsynio bod CDU yn cael ei lunio neu ei gynnal neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ei gadw.
- 10.18 Os nad yw person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY, ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu cyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU gan fod angen gwneud penderfyniad i wneud hyn. Pan fo person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ond nid yw'n cydsynio bod CDU yn cael ei lunio, ei gynnal neu (yn achos person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r ddyletswydd i lunio CDU yn berthnasol.

Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU

- 10.19 Gall plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14, neu eu rhieni, ofyn am gael eu symud i'r system ADY yn gynharach nag y bwriedir trwy ofyn i'r awdurdod lleol priodol gyhoeddi hysbysiad CDU⁹⁶.

⁹³ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 12.

⁹⁴ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 19.

⁹⁵ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 20.

⁹⁶ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 11.

- 10.20 Pan ofynnir am hysbysiad CDU, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a'i rieni, o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cais⁹⁷. Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn.

Hysbysiad ADY

- 10.21 Gall yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun, roi hysbysiad ADY mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud unrhyw blentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14 o'r system AAA i'r system ADY⁹⁸.

Symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol

- 10.22 Os nad yw awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant, mae Gorchymyn Cychwyn 14 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol berthnasol (31 Awst)⁹⁹. Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn. O ganlyniad i'r ddarpariaeth hon, erbyn diwedd y flwyddyn ysgol, bydd y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn a bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Newid mewn amgylchiadau

- 10.23 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14, sy'n ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol neu sy'n derbyn gofal ac nad ydynt wedi'u symud eisoes i'r system ADY yn symud yn awtomatig o'r system AAA i'r system ADY yn yr amgylchiadau canlynol:
- pan fyddant yn peidio â bod yn blant sy'n derbyn gofal¹⁰⁰
 - pan fyddant yn peidio â bod yn ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ac nad ydynt yn derbyn gofal¹⁰¹.
- 10.24 Ar ddyddiad y naill neu'r llall o'r newidiadau hyn, bydd y Ddeddf ADY a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol.

⁹⁷ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 11.

⁹⁸ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 13.

⁹⁹ Gorchymyn Cychwyn 14, erthyglau 14 ac 15.

¹⁰⁰ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 17.

¹⁰¹ Gorchymyn Cychwyn 14, erthygl 18.

Symud i flwyddyn orfodol ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol

- 10.25 Pan fydd plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14 yn symud i flwyddyn orfodol 2022 i 2023 ar ôl 1 Medi 2022, rhaid i'r awdurdod lleol naill ai roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i'r plentyn, a rhieni'r plentyn, yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024. Mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad, ac nid yw'r system AAA yn berthnasol bellach. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y plentyn neu ei rieni yn gofyn i'r ysgol neu'r UCD roi hysbysiad CDU, neu fod yr awdurdod lleol priodol yn rhoi hysbysiad ADY.

11. Egluro'r termau

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

11.1 Mae i anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr ystyr a roddir gan adran 2 o'r Ddeddf ADY. Hynny yw:

- (1) **Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.**
- (2) **Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd –**
 - a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
 - b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- (3) **Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.**
- (4) **Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.**

(Gweler y Cod ADY, pennod 2 am ragor o wybodaeth am y diffiniad o ADY).

Hysbysiad ADY

11.2 Gall yr awdurdod lleol priodol, o'i wirfodd ei hun, roi hysbysiad ADY mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r hysbysiad ADY yn galluogi awdurdodau lleol i symud unrhyw blentyn sydd wedi'i gynnwys yng Ngorchmynion Cychwyn 5, 6, 8, 13 ac 14.

11.3 Mewn rhai amgylchiadau, gall plant sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 ac 13, a'u rhieni, ofyn i'r awdurdod lleol priodol eu symud i'r system ADY yn gynharach na'r bwriad drwy ofyn am hysbysiad ADY. Yn dilyn cais o'r fath rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY.

- 11.4 Effaith yr hysbysiad ADY yw bod y system ADY yn berthnasol ar ddyddiad yr hysbysiad a bod y system AAA yn peidio â bod yn berthnasol ar y dyddiad hwnnw.
- 11.5 Mae hyn yn golygu bod y dyletswyddau yn y Ddeddf ADY ar ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol i wneud penderfyniad, a lle bo angen, llunio CDU ar gyfer y plentyn, yn berthnasol.

System ADY

- 11.6 Mae'r system ADY yn cyfeirio at y trefniadau cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY. Mae'r Cod ADY yn gosod gofynion ar ysgolion, UCDAu, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a chyrrff y GIG ac yn rhoi arweiniad iddynt hwy ac eraill ar y system ADY.

Darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)

- 11.7 Mae i DDdY yr ystyr a roddir gan adran 3 o'r Ddeddf ADY. Hynny yw:
- (1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran –
 - a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,
 - b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu
 - c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.
 - (2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.
 - (3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.
- 11.8 Mae rhagor o wybodaeth am y diffiniad o DDdY ar gael ym mhennod 2 o'r Cod ADY.

Awdurdod lleol priodol

- 11.9 Cyfeirir at yr awdurdod lleol priodol wrth drafod:
- y ddyletswydd a osodir ar awdurdod lleol i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU
 - yr hawl i blant sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 6, 8, 9, 13 ac 14, neu eu rhieni, wneud cais i'r awdurdod lleol priodol i roi hysbysiad CDU
 - y pŵer i awdurdod lleol roi hysbysiad ADY
 - yr hawl i blant sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 ac 14, neu eu rhieni, wneud cais i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY.

- 11.10 Yr awdurdod lleol priodol yw'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gofalu am blentyn neu, os nad yw plentyn yn derbyn gofal, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn (gweler y Cod ADY, pennod 1, tudalen 4 am ddiffiniad o blant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt).
- 11.11 Er enghraifft, mae plentyn wedi'i gofrestru mewn UCD yng Nghaerdydd ac mae'n byw y rhan fwyaf o'r amser yng Nghaerdydd. Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod lleol cyfrifol ac felly yr awdurdod lleol priodol. Fodd bynnag, os yw'r plentyn sydd wedi'i gofrestru yn yr UCD yng Nghaerdydd yn byw y rhan fwyaf o'r amser yn Rhondda Cynon Taf, yr awdurdod lleol cyfrifol fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac felly byddai'r cais i'r gyfraith newydd fod yn gymwys i'r plentyn yn cael ei wneud i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel yr awdurdod lleol priodol.
- 11.12 Os nad yw awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn (er enghraifft am fod y plentyn yn byw yn Lloegr ac wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru), yna'r awdurdod lleol priodol yw'r awdurdod lleol y lleolir yr ysgol a gynhelir neu'r UCD yn ei ardal.

Darpariaeth trosglwyddo'n awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn

- 11.13 Mae plant sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5, 6, 8, 9, 13 ac 14 ac sydd mewn blwyddyn orfodol yn cael eu symud o'r system AAA i'r system ADY drwy gydol y flwyddyn ysgol berthnasol. Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, mae ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol yn rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU (gweler paragraffau 11.38 i 11.43).
- 11.14 Os nad yw ysgol, UCD neu awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu hysbysiad i blentyn mewn blwyddyn orfodol (nad yw eisoes wedi symud i'r system ADY) a'i riant, mae Gorchmynion Cychwyn 5, 6, 8, 9, 13 ac 14 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl o fewn blwyddyn orfodol yn symud i'r system ADY. Bydd unrhyw blentyn nad yw wedi symud i'r system ADY erbyn diwedd y flwyddyn ysgol berthnasol yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol (31 Awst). Cyfeirir at hyn fel y ddarpariaeth trosglwyddo awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yn golygu, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, y bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn a bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.
- 11.15 Os bydd rhywun yn dwyn i sylw awdurdod lleol, ysgol neu UCD, neu os yw'n ymddangos iddynt fel arall, y gallai plentyn sydd wedi symud yn awtomatig i'r system ADY, fod ag ADY, rhaid i'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD benderfynu a oes gan y plentyn ADY¹⁰². Os yw'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, fel arfer bydd rhaid i'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn¹⁰³.

¹⁰² Deddf ADY, adrannau 11, 13, 18 a 40. Mae'r diffiniad o ADY i'w weld yn adran 2 o'r Ddeddf ADY ac mae'r diffiniad o DDdY i'w weld yn adran 3.

¹⁰³ Deddf ADY, adrannau 12, 14, 19 a 40.

- 11.16 Mae gan ysgolion ac UCDAu 35 diwrnod ysgol i wneud penderfyniad a, lle bo angen, cyhoeddi CDU, ac mae gan awdurdodau lleol 12 wythnos.

Osgoi achosion sydd ar y gweill

- 11.17 O 1 Medi 2022, ni fydd plant sy'n dod o dan Orchymnion Cychwyn 5, 6, 8, 9, 13 ac 14 yn gallu dod yn rhan o achos ar y gweill (gweler paragraffau 11.46 i 11.47 ar gyfer diffiniad o achosion ar y gweill). Er bod y ddeddfwriaeth AAA yn parhau i fod mewn grym, a bod rhaid parhau i ddarparu darpariaeth addysgol arbennig nes y bydd plentyn yn symud i'r system ADY, mae darpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n parhau mewn grym yn gyfyngedig.
- 11.18 Mae hyn yn golygu na ellir rhoi datganiad o AAA i blant sy'n dod o dan Orchymnion Cychwyn 5, 6, 8, 9, 13 ac 14, ac ni allant ofyn am asesiad AAA.
- 11.19 Fodd bynnag, gall plant, neu eu rhieni, ofyn am roi hysbysiad (gweler paragraffau 11.55 i 11.58 i gael gwybodaeth am ofyn am hysbysiad CDU a pharagraffau 11.59 i 11.61 i gael gwybodaeth am ofyn am hysbysiad ADY).

Plant sy'n dod o dan orchymyn

- 11.20 Mae plant sy'n dod o dan orchymyn yn cyfeirio at y grwpiau o blant sydd wedi'u cynnwys mewn gorchymyn cychwyn penodol ac a fydd yn symud o'r system AAA i'r system ADY mewn 2 o'r 3 blynedd weithredu.
- 11.21 Mae'r Gorchymnion Cychwyn wedi'u disgrifio yn adran 12.

Penderfynu a oes gan blentyn ADY

- 11.22 Yn gyffredinol, os daw i sylw awdurdod lleol, ysgol neu UCD, neu os yw'n ymddangos iddynt fel arall, y gallai plentyn fod ag ADY, rhaid i'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD benderfynu a oes gan y plentyn ADY¹⁰⁴. Os yw'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, fel arfer bydd rhaid i'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r UCD lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn¹⁰⁵.
- 11.23 Yn gyffredinol, bydd ysgolion ac UCDAu yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blentyn ADY ac am baratoi CDU, ond mae nifer o amgylchiadau wedi'u nodi yn y Ddeddf ADY lle mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu gan amlaf. Mae'r rhain yn cynnwys plentyn:
- nad yw wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD
 - sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad
 - sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru
 - sy'n cael ei gadw'n gaeth.

¹⁰⁴ Deddf ADY, adrannau 11, 13, 18 a 40. Mae'r diffiniad o ADY i'w weld yn adran 2 o'r Ddeddf ADY ac mae'r diffiniad o DDdY i'w weld yn adran 3.

¹⁰⁵ Deddf ADY, adrannau 12, 14, 19 a 40.

- 11.24 Pan fo plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr a'i fod wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru, yr ysgol neu'r UCD fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan blentyn ADY, ac eithrio pan fo awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun addysg, iechyd a gofal ar gyfer y plentyn¹⁰⁶.
- 11.25 Mae rhagor o wybodaeth am benderfynu a oes gan blentyn ADY ac am lunio a chynnal CDUau ar gael yn y Cod ADY.

Plant a gedwir yn gaeth

- 11.26 Mae i gyfeiriad at blant a gedwir yn gaeth yn y canllaw hwn yr ystyr a roddir iddo gan adran 39 o'r Ddeddf ADY. Hynny yw, plant:
- sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw, ac
 - sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr (gweler pennod 19 o'r Cod ADY).

Addysg heblaw yn yr ysgol

- 11.27 Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol¹⁰⁷ i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas i blant o oedran ysgol gorfodol na fyddent efallai, am ba reswm bynnag, yn derbyn addysg addas pe na bai trefniadau o'r fath ar waith. Mae ganddynt bŵer¹⁰⁸ i wneud yr un peth ar gyfer pobl ifanc hefyd.
- 11.28 Cyfeirir at y ddarpariaeth hon fel addysg heblaw yn yr ysgol. Gall y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gynnwys UCDAu, ysgolion mewn ysbytai, sefydliadau addysg bellach, ac addysg unigol yn y cartref (mae hyn yn wahanol i addysg ddewisol yn y cartref). Mae disgyblion addysg heblaw yn yr ysgol yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd, er enghraifft, yn sâl neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol (mae gwybodaeth am addysg heblaw yn yr ysgol ar gael ym mhennod 18 o'r Cod ADY).

Amgylchiadau eithriadol

- 11.29 Cyfeirir at ddyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDAu i roi copi o CDU o fewn amserlen benodol oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol. Mae amgylchiadau eithriadol yn cyfeirio at achosion lle mae'n amhosibl i'r corff cyfrifol gydymffurfio o fewn y cyfnod penodedig oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y corff cyfrifol.
- 11.30 Yn ystod y cyfnod gweithredu, enghraifft debygol o amgylchiadau eithriadol fyddai pe bai nifer sylweddol o blant, neu eu rhieni, yn gwneud cais i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol priodol gyhoeddi hysbysiad CDU. Pe bai nifer y ceisiadau dan sylw yn golygu ei bod yn amhosibl llunio a rhoi CDU o fewn yr amserlen ofynnol, byddai achos o'r fath yn debygol iawn o fod yn cael ei ystyried yn amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, os oes amgylchiadau

¹⁰⁶ Deddf ADY, adran 11(3)(e).

¹⁰⁷ Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996.

¹⁰⁸ Adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996.

eithriadol, rhaid rhoi'r CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Os yw'n amlwg bod amgylchiadau eithriadol a fydd yn atal, neu'n debygol o atal, y CDU rhag cael ei roi o fewn yr amserlen ofynnol, dylid esbonio hyn yn ysgrifenedig i'r plentyn a rhieni'r plentyn cyn gynted â phosibl.

- 11.31 Mae amgylchiadau eithriadol hefyd yn berthnasol mewn perthynas â'r pŵer y darperir ar ei gyfer yng Ngorchmynion Cychwyn 5, 6, 8, 13 ac 14 a roddir i awdurdod lleol i roi hysbysiad ADY er mwyn symud plentyn o'r system AAA i'r system ADY.
- 11.32 Rhoddwyd y pŵer i awdurdodau lleol ei ddefnyddio o dan amgylchiadau eithriadol. Gallai sefyllfa o'r fath godi lle mae anghenion plentyn wedi cynyddu y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol arbennig y gellir ei chyflwyno mewn ysgol brif ffrwd. Heb y pŵer i roi hysbysiad ADY, ni fyddai'r awdurdod lleol yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY a, lle bo angen, llunio CDU. Yn ogystal, nid yw'n bosibl i ysgol ofyn i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol neu gyhoeddi datganiad ar gyfer plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 5, 6, 13 ac 14. Felly, ni fyddai'n bosibl i'r awdurdod lleol leoli'r plentyn mewn ysgol arbennig gan fod y system AAA yn mynnu y dylai plentyn sy'n mynychu ysgol arbennig fod â datganiad.

Plant sy'n derbyn gofal

- 11.33 Mae i gyfeiriad at blant sy'n derbyn gofal yn y canllaw hwn yr un ystyr â phlentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn adran 15 o'r Ddeddf ADY (gweler paragraffau 1.27 i 1.30 o'r Cod ADY).

Blynyddoedd gorfodol

- 11.34 Cyfeiria blynyddoedd gorfodol at y grwpiau o blant sy'n perthyn i grwpiau blwyddyn penodol a fydd yn symud o'r system AAA i'r system ADY ym mhob un o'r 3 blynedd weithredu.

Newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY

- 11.35 Mae plant sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY o 1 Medi 2021 yn golygu plant nad oeddent yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r system AAA ar 1 Medi 2021. Hynny yw, plant nad oes ganddynt ddatganiad AAA, darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad ydynt ychwaith yn ymwneud ag achos ar y gweill (gweler paragraffau 11.46 i 11.47 am ddiffiniad o achosion ar y gweill).
- 11.36 Daeth y system ADY i rym ar gyfer pob plentyn hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 10¹⁰⁹ sydd newydd ei ddynodi fel plentyn ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddo ADY ar 1 Medi 2021, waeth sut y caiff ei addysg ei darparu.

¹⁰⁹ Gorchymyn Cychwyn 2.

- 11.37 O 1 Medi 2022 ymlaen, bydd y Ddeddf ADY yn dod i rym ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 sydd newydd eu dynodi fel rhai ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY¹¹⁰.

Hysbysiadau – hysbysiadau CDU a hysbysiadau dim CDU

- 11.38 Mae Gorchmynion Cychwyn 5, 6, 8, 9, 13 ac 14 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol priodol roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU er mwyn symud plant o'r system AAA i'r system ADY. Gellir rhoi'r hysbysiad bod y plentyn yn symud i'r system ADY ar unrhyw adeg yn y flwyddyn ysgol berthnasol.
- 11.39 Mae hysbysiad CDU yn golygu y bernir bod gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY ar ddyddiad yr hysbysiad ac y bydd CDU yn cael ei lunio ar gyfer y plentyn¹¹¹. Rhaid i'r ysgol neu'r UCD roi copi o'r CDU i'r plentyn a'i riant o fewn 35 diwrnod ysgol i ddyddiad yr hysbysiad a rhaid i awdurdodau lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn a riant y plentyn o fewn 12 wythnos i ddyddiad yr hysbysiad, oni bai bod eithriadau'n berthnasol neu os oes amgylchiadau eithriadol (gweler paragraffau 11.29 i 11.32 am ddiffiniad o amgylchiadau eithriadol).
- 11.40 Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw ac mae'r ddeddfwriaeth AAA yn peidio â bod yn berthnasol.
- 11.41 Mae hysbysiad dim CDU yn golygu y bernir nad oes gan y plentyn ADY at ddibenion pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf ADY ar ddyddiad yr hysbysiad¹¹². Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw. Mae hyn yn golygu bod gan blant, a'u rhieni, hawliau i herio penderfyniadau a wneir gan ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol.
- 11.42 Pan fo plentyn, neu ei riant, yn anghytuno â'r penderfyniad a wnaed gan ysgol, gall ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad¹¹³.
- 11.43 Pan fo plentyn, neu ei riant, yn anghytuno â'r penderfyniad a wneir gan awdurdod lleol, gall apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y penderfyniad.

Dosbarth Meithrin – Meithrin Blynyddoedd 1 a 2

- 11.44 Mae'r gorchmynion cychwyn yn gwneud darpariaeth i blant mewn dosbarth meithrin mewn ysgol a gynhelir symud i'r system ADY. Mae'r dosbarth meithrin yn golygu'r dosbarthiadau mewn ysgol a gynhelir sy'n darparu

¹¹⁰ Gorchymyn Cychwyn 12.

¹¹¹ Ac eithrio lle mae'n ofynnol i awdurdod lleol sicrhau cynllun addysg, iechyd a gofal yn dilyn cais o dan adran 12(2)(c) o'r Ddeddf, Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 5.

¹¹² Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 8; a Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 8.

¹¹³ Ddeddf ADY, adran 26.

addysg feithrin cyfnod sylfaen¹¹⁴ i blant sydd wedi troi'n 3 ond sydd o dan oedran ysgol gorfodol. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn trefnu dosbarthiadau meithrin i 2 flynedd ac, felly, cyfeirir yn y canllaw hwn at Flynyddoedd Meithrin 1 a 2 wrth gyfeirio at ddosbarthiadau meithrin.

Rhiant

11.45 Mae i riant yr ystyr a roddir i “parent” yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r diffiniad hwnnw yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n riant, ond sydd â chyfrifoldeb riant dros y plentyn ac unrhyw berson sydd â dyletswydd gofal dros y plentyn¹¹⁵.

Achosion ar y gweill

- 11.46 Mae achos ar y gweill yn cyfeirio at achosion lle mae plentyn neu berson ifanc naill ai'n ymwneud â phroses sy'n gysylltiedig â'r system datganiad AAA y darperir ar ei chyfer yn Neddf Addysg 1996 neu gyda phroses sy'n ymwneud â chynlluniau Addysg, lechyd a Gofal y darperir ar ei chyfer yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014.
- 11.47 Er bod nifer fawr o achosion ar y gweill amrywiol, gellir eu categoreiddio'n 2 fath: y rhai cyn-datganiad a'r rhai datganiad. Achos ar y gweill cyn-datganiad yw pan nad oes gan blentyn neu berson ifanc ddatganiad ond ei fod yn ceisio cael datganiad. Gallai'r broses hon ddod i ben gyda rhoi datganiad neu drwy beidio â rhoi datganiad o gwbl. Datganiad ar y gweill yw pan fo datganiad eisoes wedi'i roi ond bod apêl ar waith mewn perthynas â'i gynnwys neu pan fo'r awdurdod lleol yn ceisio rhoi'r gorau i gynnal y datganiad.

Llunio CDU

- 11.48 O dan y Ddeddf ADY, os yw awdurdod lleol, ysgol neu UCD wedi penderfynu bod gan blentyn ADY, rhaid llunio CDU ar gyfer y plentyn¹¹⁶.
- 11.49 Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd llunio CDU fel arfer yn digwydd yng nghyd-destun symud plentyn o'r system AAA, a'i gynlluniau presennol a'i ddarpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, i'r system ADY.
- 11.50 Mae rhagor o wybodaeth am benderfynu a oes gan blentyn ADY ac am lunio a chynnal CDUau yn y Cod ADY.

¹¹⁴ Gweler 'Addysg feithrin ar gyfer plant 3 a 4 oed yng Nghymru – Meithrin y Cyfnod Sylfaen: Canllawiau i rieni a gofalwyr'.

¹¹⁵ Mae 'Rhieni a chyfrifoldebau rhiant: canllawiau ar gyfer ysgolion' yn cynnwys canllawiau i ysgolion ar ystyr rhieni a chyfrifoldeb rhieni at ddibenion Deddf Addysg 1996.

¹¹⁶ Ac eithrio bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, lechyd a Gofal ar gyfer y plentyn neu pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad Addysg, lechyd a Gofal yn dilyn cais o dan adran 12(2)(c) neu adran 87(3)(d)(i) o'r Ddeddf ADY.

Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

- 11.51 Er mwyn bod yn gryno, defnyddir y term UCD yn y canllaw hwn wrth ddisgrifio dyletswydd a osodir ar bwllgor rheoli UCD o dan y Ddeddf ADY, y Cod ADY neu reoliadau o dan y Ddeddf ADY. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system yn gweithio'n ymarferol, gan mai staff sy'n gweithredu ar ran y pwllgor rheoli sy'n cyflawni swyddogaethau'r pwllgor rheoli gan amlaf.

Ystyried darpariaeth flaenorol

- 11.52 Wrth lunio CDU, rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol roi sylw i'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i'r plentyn er mwyn hwyluso parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio o'r system AAA i'r system ADY (i gael gwybodaeth am lunio CDU, gweler y Cod ADY, pennod 12, tudalennau 99 i 100 ar gyfer ysgolion ac UCDau, neu tudalennau 109 i 111 ar gyfer awdurdodau lleol).

Wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad (cofrestriad deuol)

- 11.53 Pan ddisgrifir plentyn fel un sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, mae'n golygu bod y plentyn wedi'i gofrestru fel disgybl neu wedi ymrestru'n fyfyrwr mewn mwy nag un lleoliad, gydag un ohonynt yn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru a hefyd bod y plentyn i gael addysg neu hyfforddiant ym mhob un o'r lleoliadau lle mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyrwr ymrestredig¹¹⁷.

Awdurdod lleol cyfrifol

- 11.54 Mae'r Cod ADY, pennod 1, tudalen 4 yn rhoi diffiniad o blant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.

Hawl i blentyn neu ei riant ofyn am hysbysiad CDU

- 11.55 Mae Gorchmynion Cychwyn 5, 6, 8, 9, 13 ac 14 yn rhoi hawl i blant sy'n dod o dan y gorchmynion cychwyn, neu eu rhieni, ofyn am i hysbysiad CDU gael ei roi ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu.
- 11.56 Yn ogystal, mae Gorchmynion Cychwyn 5 ac 13, mewn rhai amgylchiadau, yn rhoi hawl i blant sy'n dod o dan y gorchmyn, neu eu rhieni, ofyn am i hysbysiad ADY gael ei roi ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu.
- 11.57 Pan ofynnir am hysbysiad CDU, rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU o fewn 15 diwrnod ysgol neu 15 diwrnod gwaith (fel y bo'n briodol) o'r cais (gweler paragraffau 11.38 i 11.43 am wybodaeth am hysbysiadau). Dyddiad yr hysbysiad yw'r dyddiad y mae'r plentyn yn symud i'r system ADY. Hynny yw, mae'r Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o'r dyddiad hwnnw ac mae gan yr ysgol neu'r UCD 35

¹¹⁷ Deddf ADY, adrannau 30 (1) a (3).

diwrnod ysgol i lunio CDU ar gyfer y plentyn lle rhoddir hysbysiad CDU¹¹⁸. Mae gan awdurdodau lleol 12 wythnos i baratoi CDU ar gyfer y plentyn lle rhoddir hysbysiad CDU¹¹⁹.

- 11.58 Pan fo plentyn yn gofyn am hysbysiad ADY, mae gan yr awdurdod lleol priodol 10 diwrnod gwaith i roi'r hysbysiad (gweler paragraffau 11.59 i 11.61 ar gyfer gwybodaeth am yr hawl i blentyn neu ei riant ofyn am hysbysiad ADY).

Hawl i blentyn neu ei riant ofyn am hysbysiad ADY

- 11.59 Gall plant sy'n dod o dan Orchmynion Cychwyn 5 ac 13 nad ydynt bellach wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD (ac na allant, felly, ofyn i'w hysgol neu eu UCD roi hysbysiad CDU), neu eu riant, ofyn i'r awdurdod lleol priodol roi hysbysiad ADY.
- 11.60 Rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi'r hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae'r amserlen ar gyfer rhoi hysbysiad ADY yn fyrrach na'r amserlen i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU. Y rheswm am hyn yw nad yw rhoi hysbysiad ADY yn golygu gwneud penderfyniad.
- 11.61 Mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn ar ddyddiad yr hysbysiad ac mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Ysgolion

- 11.62 Mae Gorchmynion Cychwyn 5, 8, 9 ac 11 i 14 yn defnyddio'r diffiniad o ysgol a gynhelir a ddarperir yn adran 99(1) o'r Ddeddf ADY. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys UCDAu.
- 11.63 Rhoddir dyletswyddau yn y Ddeddf ADY sy'n ymwneud ag ysgolion ar gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a rhoddir y rhai sy'n ymwneud ag UCDAu ar bwyllgor rheoli UCD.
- 11.64 Er mwyn bod yn gryno, wrth ddisgrifio dyletswydd a osodir ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ar bwyllgor rheoli UCD (neu y gellir ei roi ar y naill neu'r llall mewn is-ddeddfwriaeth), defnyddir yr ysgol neu'r UCD, yn hytrach na chyfeirio at y corff llywodraethu neu'r pwyllgor rheoli bob tro. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system yn gweithio'n ymarferol lle mae swyddogaethau cyrrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli gan amlaf yn cael eu cyflawni gan aelodau staff sy'n gweithredu ar eu rhan.

Sicrhau DDdY

- 11.65 Rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal CDU sicrhau'r DDdY a ddisgrifir yn y CDU a, lle bo CDU yn nodi y dylid darparu DDdY yn

¹¹⁸ Nid yw amserlenni'r Cod sy'n ymwneud â chorff llywodraethu'n llunio CDU yn berthnasol pan gaiff CDU ei lunio ar ôl rhoi hysbysiad CDU. Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 13.

¹¹⁹ Nid yw amserlenni'r Cod sy'n ymwneud ag awdurdod lleol yn llunio CDU yn berthnasol pan gaiff CDU ei lunio ar ôl rhoi hysbysiad CDU. Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 13.

Gymraeg, rhaid i'r ysgol, yr UCD neu'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno yn Gymraeg¹²⁰.

- 11.66 Mae rhagor o wybodaeth am benderfynu a oes gan blentyn ADY ac am lunio a chynnal CDUau ar gael yn y Cod ADY.

System anghenion addysgol arbennig (AAA)

- 11.67 Mae'r system AAA yn cyfeirio at y trefniadau cyfreithiol a nodir yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 ac is-ddeddfwriaeth, a '[Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru](#)'.

Darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy

- 11.68 Yn y canllaw hwn drwyddo draw, cyfeirir at blant sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy. Defnyddir gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy i ddynodi unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i blentyn nad yw'n cael ei darparu drwy ddatganiad AAA.
- 11.69 Mae'r canllaw hwn yn cwmpasu plant o'u geni hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 10, ac felly mae'r cyfeiriad at weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy yn cynnwys darpariaeth addysgol arbennig a gyflwynir i blant ifanc drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy, yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig a ddarperir i blant ifanc nad yw'n cael ei darparu drwy ddatganiad.

¹²⁰ Yr eithriad i hyn yw pan fo'r CDU yn pennu bod y DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG, ac os felly dyletswydd y corff GIG yw sicrhau'r DDdY honno, ac os nodir y dylid darparu'r DDdY yn Gymraeg, rhaid i'r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno yn Gymraeg (Deddf ADY, adrannau 20 a 21).

12. Disgrifiad o'r gorchmynion cychwyn

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021

- 12.1 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021¹²¹ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 2)¹²² yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 10 sydd, o 1 Medi 2021, newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY (gweler paragraffau 11.35 i 11.37 ar gyfer gwybodaeth am blant sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY). Yn ogystal, mae Gorchymyn Cychwyn 2 yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol a gedwir yn gaeth ar neu ar ôl 1 Medi 2021 (gweler paragraff 11.26 am ddiffiniad o blant a gedwir yn gaeth).
- 12.2 Mae Gorchymyn Cychwyn 2 hefyd yn cychwyn darpariaethau yn ymwneud â Thribiwnlys Addysg Cymru.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2021

- 12.3 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2021 (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 5) wedi dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 (yn ystod blwyddyn ysgol 2021 i 2022), ac sydd wedi cael darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy¹²³.
- 12.4 Roedd plant a oedd yn perthyn i un o flynyddoedd gorfodol 2021 i 2022 ar 1 Ionawr 2022 i fod i symud i'r system ADY yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf blwyddyn ysgol 2021 i 2022. Ar ôl cyflwyno gorchymyn diwygio¹²⁴, cafodd hyn ei ymestyn fel bod plant yn un o'r blynyddoedd gorfodol hynny ar 1 Ionawr 2022 hefyd yn gallu symud yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023.

¹²¹ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif. 2\) Gorchymyn 2021 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygiadau i Orchymynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4\) 2021 a chan Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 a Dirymu Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 4\) 2021.](#)

¹²² [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed\) 2021 fel y'i diwygiwyd gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6\) 2021.](#)

¹²³ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 9.

¹²⁴ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6\) 2022.](#)

- 12.5 Mae hyn yn golygu y bydd plant sy'n perthyn i'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn symud i'r system ADY yn yr ail flwyddyn o weithredu:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023 (oni bai eu bod eisoes wedi symud): Meithrin Blwyddyn 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
- 12.6 Mae'r gorchymyn hefyd yn ymdrin â'r blynyddoedd gorfodol a fydd yn trosglwyddo i'r system ADY newydd yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024¹²⁵. Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu, bydd plant sy'n perthyn i'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn symud i'r system ADY:
- blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6a Blwyddyn 10.
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Mlwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023-24
- 12.7 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 5 yn cynnwys y rhai sydd ag achos ar y gweill (gweler paragraffau 11.46 i 11.47 ar gyfer gwybodaeth am achosion ar y gweill) ar 1 Ionawr 2022, er enghraifft, y rhai sy'n cael asesiad statudol neu sydd wedi gofyn am asesiad statudol o dan Ddeddf Addysg 1996¹²⁶.
- 12.8 Mae Gorchymyn Cychwyn 5 yn gosod gofynion ar ysgolion, UCDAu ac awdurdodau lleol.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Gorchymyn Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2021

- 12.9 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Gorchymyn Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2021¹²⁷ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 6) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10 sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac sydd:
- wedi eu cofrestru mewn mwy nag un lleoliad a bod un o'r lleoliadau hynny yn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru; neu
 - wedi eu cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD yng Nghymru a'u bod yn derbyn gofal yng Nghymru gan awdurdod lleol yng Nghymru¹²⁸.
- 12.10 Yn yr un modd â Gorchymyn Cychwyn 5, mae gorchymyn 6 yn darparu i blant a ddisgrifir ym mharagraff 12.7 symud i'r system ADY newydd drwy flynyddoedd gorfodol.

¹²⁵ Gorchymyn Cychwyn 5, erthyglau 10 ac 11.

¹²⁶ Gorchymyn Cychwyn 5, erthygl 2.

¹²⁷ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed\) 2021](#) fel y'i diwygiwyd gan [Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6\) 2021](#).

¹²⁸ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 2.

- 12.11 Roedd plant a oedd yn perthyn i un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol ar 1 Ionawr 2022 i fod i symud i'r system ADY yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf blwyddyn ysgol 2021 i 2022: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10¹²⁹. Ar ôl cyflwyno gorchymyn diwygio¹³⁰, cafodd hyn ei ymestyn fel bod plant yn un o'r blynyddoedd gorfodol ar 1 Ionawr 2022 hefyd yn gallu symud yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023.
- 12.12 Mae hyn yn golygu y bydd plant sy'n perthyn i'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn symud i'r system ADY yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu:
- blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
- 12.13 Mae'r gorchymyn hefyd yn ymdrin â'r blynyddoedd gorfodol a fydd yn trosglwyddo i'r system ADY newydd yn ystod blynyddoedd ysgol 2023 i 2024¹³¹. Yn ystod y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn o weithredu, bydd plant sy'n perthyn i'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn symud i'r system ADY:
- blwyddyn ysgol 2023 i 2024: Blwyddyn 6a Blwyddyn 10.
 - blwyddyn ysgol 2023 i 2025: Gweddill y plant sydd heb symud eisoes, y rhai yn y Meithrin ac ym Mlwyddyn 2, Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn ysgol 2023-24
- 12.14 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 6 yn cynnwys y rhai sydd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022, er enghraifft y rhai sy'n cael asesiad statudol neu sydd wedi gofyn am asesiad statudol o dan Ddeddf Addysg 1996¹³².
- 12.15 Mae Gorchymyn Cychwyn 6 yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 7) 2021

- 12.16 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 7) 2021¹³³ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 7) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 10 nad oedd ganddynt ADY wedi'u nodi ar 1 Ionawr 2022. Yn bennaf, bydd hyn yn berthnasol i'r rhai a oedd ag AAA wedi'u nodi ar 1 Medi 2021, neu a oedd ag achos ar y gweill ac nad oedd ganddynt AAA wedi'u nodi mwyach ar 1 Ionawr 2022, neu nad oedd ganddynt achos ar y gweill mwyach. Mae Gorchymyn Cychwyn 7 yn trin y plant hyn fel rhai sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY (gweler paragraffau 11.35 i 11.37 ar gyfer gwybodaeth am y

¹²⁹ Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 9.

¹³⁰ Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6) Gorchymyn 2022.

¹³¹ Gorchymyn Cychwyn 6, erthyglau 10 ac 11.

¹³² Gorchymyn Cychwyn 6, erthygl 2.

¹³³ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 7\) 2021](#)

rhai sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY, neu y credir am y tro cyntaf bod ganddynt ADY).

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022

- 12.17 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022¹³⁴ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 8) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 sydd â datganiad ar 1 Medi 2022, neu sy'n rhan o achos datganiad ar y gweill, megis y rhai sydd wedi cyflwyno apêl yn ymwneud â datganiad o dan Ddeddf Addysg 1996 (gweler hefyd baragraffau 11.46 i 11.47 ar gyfer diffiniad o achosion ar y gweill).
- 12.18 Bydd plant sydd â datganiad sydd o dan oedran ysgol gorfodol a phlant o'r oedran ysgol gorfodol sy'n perthyn i un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol ar 1 Medi 2022 yn symud i'r system ADY yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 6, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11¹³⁵.
- 12.19 Bydd plant sydd â datganiad sy'n perthyn i un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol ar 1 Medi 2023 yn symud i'r system ADY yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2024 a 2023 i 2025: Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10¹³⁶.
- 12.20 Bydd plant sydd ag achos datganiad ar y gweill ar 1 Medi yn symud i'r system ADY cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol pan fydd yr achos wedi'i benderfynu'n derfynol¹³⁷.
- 12.21 Nid yw Gorchymyn Cychwyn 8 yn cynnwys plant sydd ag achos cyn datganiad ar y gweill. Mae Gorchymyn Cychwyn 9 yn darparu trefniadau ar gyfer y plant hyn.
- 12.22 Mae Gorchymyn Cychwyn 8 yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022

- 12.23 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed)

¹³⁴ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed\) 2022](#)

¹³⁵ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 9.

¹³⁶ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 10.

¹³⁷ Gorchymyn Cychwyn 8, erthygl 12.

2022¹³⁸ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 9) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 sydd ag achos cyn datganiad ar y gweill ar 1 Medi 2022. Hynny yw, nid oes gan y plentyn ddatganiad ac mae'n ymwneud â phroses statudol o dan Ddeddf Addysg 1996 (gweler paragraffau 11.46 i 11.47 ar gyfer diffiniad o achosion ar y gweill).

12.24 Bydd plant sydd ag achos cyn datganiad ar y gweill ar 1 Medi 2022 yn symud i'r system ADY cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol ar ôl 1 Medi 2022 oni bai bod apêl ar waith. Os oes apêl ar waith ar 1 Medi 2022, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i benderfyniad terfynol gael ei wneud ar yr apêl honno.

12.25 Mae Gorchymyn Cychwyn 9 yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 11) 2022

12.26 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 11) 2022¹³⁹ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 11) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 sydd â darpariaeth addysgol arbennig ar 1 Medi 2022 trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy ac nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir neu UCD ac nad ydynt yn ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol neu'n blant sy'n derbyn gofal.

12.27 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 11 yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 1 Medi 2022. Mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plant hyn ar 1 Medi 2022.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 12) 2022

12.28 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 12) 2022¹⁴⁰ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 12) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 11 nad oes ganddynt AAA wedi'i nodi ar 1 Medi 2022.

12.29 Yn bennaf, bydd hyn yn cynnwys plant a oedd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a oedd wedi dod i ben cyn 1 Medi 2022. Mae'r plant hyn yn cael eu trin fel rhai sy'n newydd i'r system, ac mae'r ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plant hyn ar 1 Medi 2022.

¹³⁸ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed\) 2022](#)

¹³⁹ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 11\) 2022](#)

¹⁴⁰ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 12\) 2022](#)

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 13 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022

- 12.30 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 13 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022¹⁴¹ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 13) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD, ac nad ydynt yn derbyn gofal nac wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.
- 12.31 Yn bennaf, bydd hyn yn cynnwys plant a oedd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022. Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 13 yn symud i'r system ADY yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023 os ydynt yn perthyn i un o'r blynyddoedd canlynol: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
- 12.32 Bydd plant yn symud yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2025 os ydynt yn perthyn i un o'r blynyddoedd canlynol: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10.
- 12.33 Mae'r gorchymyn yn gosod cyfrifoldebau ar ysgolion ac UCDAu.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022

- 12.34 Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022¹⁴² (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 14) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer y plant canlynol:
- y rhai sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, sy'n mynychu lleoliad a gynhelir, ac sy'n derbyn gofal neu wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad (yn bennaf bydd hyn yn cynnwys y rhai a oedd ag achos ar y gweill ar 1 Ionawr 2022 a ddaeth i ben cyn 1 Medi 2022 sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy)
 - y rhai sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy, nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac sy'n ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol neu'n blant sy'n derbyn gofal.

¹⁴¹ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 13 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed\) 2022](#)

¹⁴² [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed\) 2022](#)

- 12.35 Bydd plant sy'n dod o dan Orchymyn Cychwyn 14 yn symud i'r system ADY yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023 os ydynt yn perthyn i un o'r blynyddoedd canlynol: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
- 12.36 Bydd plant yn symud yn ystod blwyddyn ysgol 2023 i 2025 os ydynt yn perthyn i un o'r blynyddoedd canlynol: Meithrin Blynyddoedd 1 a 2, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10. Mae'r gorchymyn yn gosod cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol.

Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 15) 2022

- 12.37 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 15) 2022¹⁴³ (y cyfeirir ato fel Gorchymyn Cychwyn 15) yn dwyn i rym y Ddeddf ADY ar gyfer plant sydd â Chynllun Addysg, lechyd a Gofal neu achos Cynllun Addysg, lechyd a Gofal ar y gweill ar 1 Medi 2022.
- 12.38 Bydd plant sydd â Chynllun Addysg, lechyd a Gofal neu sy'n ymwneud â Chynllun Addysg, lechyd a Gofal ar y gweill o dan [Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014](#) yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 1 Medi 2022.

¹⁴³ [Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018 \(Cychwyn Rhif 15\) 2022](#)